Rural Payments Agency

# Canllaw i Gwotâu Llaeth

Fersiwn 13.0

Awdur (Rôl/Enw): *Amrywiol*

Cymeradwywyd Gan (Rôl/Enw): Rheolwr Cwotâu Llaeth / Karen Oppy

This publication was archived on 31 March 2015

## HANES ARGRAFFIADAU

Cofnodir holl argraffiadau'r ddogfen hon isod. Ar ôl Fersiwn 1.0, dylai pob argraffiad gofnodi rhesymau dros newid trwy gyfeirio at Gais am Newid.

| Fersiwn | Dyddiad | Rhesymau dros y Newid |
|---|---|---|
| 9 | 16 Ebr 2007 | Diweddarwyd i gynnwys newidiadau i ddyddiadau cau ar gyfer talu a gyflwynwyd gan Reoliad y Comisiwn 1468/2006 |
| 9.1 | 12 Hyd 2007 | Paratoi drafft newydd i ymgorffori'r newid o'r Rheoliad Cyngor presennol i'r CMO arfaethedig |
| 9.2 | 19 Tach 2007 | Newid i gywiro rhifau rheoliadau ac erthyglau gan y cyhoeddwyd y CMO yn Rheoliad y Cyngor 1234/07 |
| 10.0 | 7 Maw 2008 | Fersiwn Gyhoeddedig |
| 10.1 | Ion 2011 | Diweddarwyd i gael gwared â chyfeiriadau i ***scaleback***, ynghyd â gwaith tacluso arall |
| 11.0 | 8 Maw 2011 | Fersiwn Gyhoeddedig |
| 12.0 | Mai 2013 | Fersiwn Gyhoeddedig |
| 13.0 | 31 Mehefin 2013 | Fersiwn Gyhoeddedig |

## DOSBARTHIAD

Trwy www.rpa.defra.gov.uk

Canllaw i Gwotâu Llaeth

This publication was archived on 31 March 2015

# Cynnwys

**Rhannau**

**1** Rhagarweiniad
**2** Cyflwyniad i'r system cwotâu llaeth
**3** Beth mae'r Asiantaeth Taliadau Gwledig yn ei wneud
**4** Daliadau a chwota cynhyrchwyr
**5** Cynhyrchwyr cyfanwerthu
**6** Gwerthwyr uniongyrchol
**7** Prynwyr
**8** Trosglwyddo cwota
**9** Lesio cwota
**10** Braster menyn
**11** Trosi cwota
**12** Ailddyrannu cwota yn ôl blaenoriaeth
**13** Cyfrif a thalu lefi
**14** Atalfaelu ac adfer cwota
**15** Cadw cofnodion
**16** Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni
**17** Gofyn am wybodaeth

**Atodiadau**

**1** Sut i gysylltu â ni
**2** Cyfeiriadau cyswllt
**3** Rhestr o ffurflenni a thaflenni Cwota Llaeth
**4** Rheoliadau a Chosbau
**5** Enghraifft o lythyr rhoi gwybod am newidiadau
**6** Cyfrifiad seiliau braster menyn
**7** Geirfa

This publication was archived on 31 March 2015

# Rhan 1

## Rhagarweiniad

Mae'r canllaw hwn RPA(MQ)1 yn rhoi braslun o'r cynllun cwota llaeth ac yn esbonio sut mae'n gweithio.

Mae'n cynnig arweiniad i'r trefniadau cwota llaeth adeg cyhoeddi, ac yn esbonio'r rheolau a'r rheoliadau sy'n berthnasol i gynhyrchwyr llaeth a chynnyrch llaeth ar gyfer cyfanwerthu neu i'w gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd.

Mae hefyd yn rhoi manylion byr y rheolau sy'n berthnasol i unrhyw un sy'n prynu llaeth neu gynnyrch llaeth oddi wrth gynhyrchwr i'w brosesu neu i'w werthu ymlaen i'r cyhoedd.

Mae'r rheolau a'r ymrwymiadau a ddisgrifir yn y canllaw hwn yn deillio o ddeddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig, ac efallai y cânt eu newid o bryd i'w gilydd. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a roddir yn gyflawn a chywir ond mae oedi'n bosibl wrth gyhoeddi a gwneud newidiadau i daflenni. Os oes amheuaeth ynghylch dehongliad, dylid cael cyngor cyfreithiol; dylid nodi er hynny mai gan Lys Cyfiawnder Ewrop y mae'r awdurdod terfynol ar ddehongliad a dilysrwydd deddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd.

Ceir cyfyngiadau amser ar lawer o'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn y canllaw hwn. Os nad ydych yn cadw atynt efallai y byddwch yn torri'r rheoliadau ac y bydd rhaid inni wrthod cais a wnaethoch, atafaelu eich cwota, neu efallai y bydd rhaid ichi dalu lefi ychwanegol.

### Er mwyn cael mwy o wybodaeth am gwotâu llaeth

Gallwch ffonio'r Llinell Gymorth Cwotâu Llaeth (Atodiad 1 y Canllaw hwn) ar 01392 315763 i gael mwy o gyngor, danfon ebost i milk.quotas@rpa.gsi.gov.uk neu ysgrifennu at Cwotâu Llaeth, RPA, Sterling House, Dix's Field, Caerwysg, EX1 1QA

This publication was archived on 31 March 2015

# Rhan 2

## Cyflwyniad i system cwotâu llaeth

### Cefndir y system

Mae'r Gymuned Ewropeaidd yn defnyddio system y cwotâu llaeth i reoli cynhyrchu llaeth a chynnyrch llaeth yn yr Undeb Ewropeaidd. Cyflwynwyd cwotâu yn 1984 gan fod gormod o laeth yn cael ei gynhyrchu yn yr Undeb Ewropeaidd. Cyflwynwyd y system er mwyn lleihau cost ymyrryd yn y farchnad cynhyrchion llaeth i drethdalwyr y Gymuned Ewropeaidd.

Roedd cytundeb diwygio CAP Medi 2003 yn darparu ar gyfer ymestyn y system cwotâu tan 2015. Disgwylir i'r system cwotâu llaeth ddod i ben ym mlwyddyn cwota 2014/15.

### Sut mae'r system cwota yn gweithio

Mae pob Aelod Wladwriaeth yn cael cwota cenedlaethol ac o hwn caiff pob cynhyrchwr gwota unigol i'w ddefnyddio ar eu daliad. Mae cwota cynhyrchwr yn nodi faint o laeth y gallant ei farchnata mewn blwyddyn gwota heb orfod talu lefi. Mae blynyddoedd cwota yn rhedeg o 1 Ebrill tan 31 Mawrth. Gellir trosglwyddo cwota rhwng cynhyrchwyr a rhaid i gynhyrchwyr newydd wneud eu trefniadau eu hunain i gael cwota gan nad oes unrhyw gronfa wrth gefn ar gyfer gwneud dyraniadau cwota newydd.

Os yw cynhyrchwr yn marchnata mwy na'r cwota a ddyrannwyd iddo, efallai y bydd rhaid iddynt dalu lefi (a elwir yn 'lefi llaeth atodol') ar y llaeth ychwanegol a farchnatwyd os yw'r Deyrnas Unedig ei hun wedi mynd dros ei chwota.

Mae'r term 'marchnatwyd' yn cynnwys yr holl laeth sy'n gadael daliad cynhyrchwr, boed yn cael ei werthu neu ei ei roi am ddim.

Mae cwota ynghlwm wrth y daliad yn hytrach na'r cynhyrchwr, ac os yw daliad neu ran o ddaliad yn newid dwylo, mae gan feddiannydd newydd y daliad, gan amlaf, yr hawl i gofrestru'r cwota yn ei enw ei hun.

### Rheoliadau cwotâu llaeth

Rhestrir y rheolau ar gyfer cwotâu llaeth a'r lefi llaeth atodol yn rheoliadau canlynol y Gymuned Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig:

- Rheoliad y Cyngor (EEC) 1234/2007 (wedi'i ddiwygio) yn sefydlu lefi ychwanegol yn y sector llaeth a chynnyrch llaeth,
- Rheoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 595/2004 (wedi'i ddiwygio) yn nodi rheolau manwl ar weithredu'r lefi ar laeth a chynnyrch llaeth,
- Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth 2005 (wedi'u diwygio), a
- Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Darpariaethau Cyffredinol) 2005.

Mae pedair fersiwn wahanol o Reoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth 2005, un ar gyfer pob un o wledydd Prydain. Er enghraifft, caiff Cwotâu Llaeth ar ddaliadau yn yr Alban eu rheoli gan Reoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Yr Alban) 2005.

This publication was archived on 31 March 2015

Gwelwch gyfeiriadau at y rheoliadau hyn yng ngholofn llaw dde pob tudalen. Er mwyn cael rhagor o fanylion trowch at Atodiad 4 y Canllaw hwn.

### Beth mae'r system gwotâu yn ei gynnwys

Mae'r system gwotâu yn cynnwys yr holl laeth a chynnyrch llaeth y mae cynhyrchwr yn eu marchnata. Mae hyn yn cynnwys llaeth hylif, menyn, caws, iogwrt a hufen ia. Mae hefyd yn cynnwys llaeth tor.

### Mathau o gwota

Mae dau fath o gwota:

- cwota cyfanwerthu – sy'n cynnwys cyflenwi llaeth i brynwr llaeth cymeradwy, a
- chwota gwerthiannau uniongyrchol – sy'n cynnwys marchnata llaeth neu gynnyrch llaeth yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

Bydd rhaid i gynhyrchwyr sy'n cyflenwi llaeth yn gyfanwerthol ac yn uniongyrchol i'r cyhoedd gael cwota ar wahân ar gyfer y ddau fath o drafodiad. Mae darpariaeth ar gyfer trosi o un math i'r llall er mwyn gallu eu cynhyrchu os yw hynny'n angenrheidiol.

### Hanes Dyrannu Cwota

Yn 1984, dyrannwyd i gynhyrchwyr eu cwota gwreiddiol i'w ddefnyddio ar eu daliad. Roedd faint a ddyrannwyd iddynt yn seiliedig ar faint o laeth neu gynnyrch llaeth a gynhyrchwyd ganddynt yn ystod 'blwyddyn gyfeiriol'. Y flwyddyn gyfeiriol oedd:

1981 – ar gyfer cwota gwerthiannau uniongyrchol.

1983 – ar gyfer cwota cyfanwerthu.

Cafwyd nifer o ddyraniadau ychwanegol yn ddiweddarach, rhai ohonynt yn ddyraniadau o gwota arbennig (gweler isod).

Roedd tri dyraniad o gwota arbennig, a elwid hefyd yn gwota SLOM. Dyrannwyd hwn i gynhyrchwyr na chawsant ddyraniad cwota yn 1984 gan eu bod hwy, neu'r bobl oedd yn feddianwyr eu ffermydd ar y pryd, ynghlwm wrth gynlluniau anfarchnatol neu drosi buchesi llaeth. Y tri dyraniad o gwota SLOM oedd:

- SLOM 1, a ddyfarnwyd yn 1989, (Rheoliad y Cyngor (EEC) 764/89)
- SLOM 2, a ddyfarnwyd yn 1991, ac (Rheoliad y Cyngor (EEC) 1639/91)
- SLOM 3, a ddyfarnwyd yn 1993. (Rheoliad y Cyngor (EEC) 2055/93)

Erbyn hyn, cafodd yr holl gwota arbennig ei drosi i gwota cyfanwerthu cyffredin.

This publication was archived on 31 March 2015

## Toriadau cwota

Gall y Gymuned Ewropeaidd neu Aelod Wladwriaethau wneud toriadau i gwotâu cenedlaethol. Pan mae hyn hyn digwydd, gellir talu iawndal i gynhyrchwyr os yw eu cwota'n cael ei dorri. Nid oes unrhyw gynlluniau ar gyfer mwy o doriadau cwota.

## Codiadau Cwota

Ceir codiadau cwota o 1% ar gyfer pob blwyddyn gwota tan 2013/14. Bydd cynhyrchwyr yn cael dyraniad yn cyfateb i 1% o'u cwota net ar ddiwedd y flwyddyn gwota flaenorol. Ni fydd cynhyrchwr sy'n trosglwyddo cwota a ddefnyddiwyd yn cael y dyraniad o 1% ar y cwota hwnnw; yn hytrach, caiff y cwota ychwanegol ei ddyrannu i'r trosglwyddai (os defnyddiwyd y cwota oherwydd y cynhyrchwyd ar ei gyfer) neu i'r lesddeiliad gwreiddiol (os defnyddiwyd y cwota oherwydd y cafodd ei lesio allan). Ni fydd unrhyw un sy'n rhoi'r gorau i gynhyrchu cyn diwedd y flwyddyn gwota yn cael dyraniad yn y flwyddyn gwota newydd. Nid oes unrhyw godiad cwota yn yr arfaeth ar gyfer 2014/15 gan mai honno fydd blwyddyn olaf y system cwotâu llaeth yn yr Undeb Ewropeaidd.

## Rheoli cwota

Mae'r system cwotâu llaeth yn cynnwys trefniadau i alluogi cynhyrchwyr i addasu eu cwota i gyfateb i faint o laeth maen nhw'n ei gynhyrchu. Gallant:

- drosi rhwng cwota cyfanwerthu a gwerthiannau uniongyrchol, a
- chynyddu neu leihau'r cwota sydd ar gael iddynt trwy lesio neu drosglwyddo cwota.

## Cosbau am dorri rheolau'r system

Mae cosbau i gynhyrchwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau cwota llaeth.

Byddwn yn atalfaelu cwota oddi wrth gynhyrchwyr:

- a gafodd eu cwota trwy dwyll, DPQR, Rheoliad 40
- nad ydynt yn cynhyrchu ar gyfer unrhyw ran o'u cwota mewn blwyddyn gwota, neu Rheoliad y Cyngor 1234/07, Erth. 72
- nad ydynt yn danfon datganiad blynyddol o werthiannau uniongyrchol. Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 11

Efallai y cymerwn gamau cyfreithiol yn erbyn cynhyrchwyr a phrynwyr sy'n:

- gwneud datganiad ffug,
- sy'n methu talu lefïau,
- sy'n methu cadw cofnodion, neu
- sy'n methu cyflwyno datganiad blynyddol o werthiannau uniongyrchol.

Gweithredir cosbau am gyflwyno'n hwyr neu am unrhyw dan neu or-ddatgan ar ffurflenni MQ/15, MQ/13 ac MQ13A ac am gyflwyno ffurflenni MQ/10 ac MQ/12 yn hwyr. DPQR, Rheoliad 36

Mae rhestr o Reoliadau a Chosbau yn Atodiad 4.

## Atebolrwydd

Bydd Uwch Reolwyr yn agored i gael eu herlyn os cyflawnir trosedd gan gorff corfforaethol. DPQR, Rheoliad 40

This publication was archived on 31 March 2015

### Dyddiadau Pwysig

| | | |
|---|---|---|
| Ebrill | 1 | Dechrau'r flwyddyn gwota |
| | 30 | Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen: |
| | | • MQ/16 *ailddyrannu cwota dros dro* |
| Mai | 14 | Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen: |
| | | • MQ/15 *datganiad blynyddol o werthiannau uniongyrchol a throsi dros dro* |
| | | • MQ/13 *adroddiad blynyddol prynwr* |
| | | Dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflen: |
| | | • MQ/10 *symud cwota llaeth rhwng prynwyr* |
| Mehefin | 15 | Dyddiad cau ar gyfer derbyn MQ/26 *symud cwota llaeth dros dro rhwng prynwyr* |
| Medi | 30 | Dyddiad cau ar gyfer talu lefi |
| Rhagfyr | 31 | Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen: |
| | | • MQ/6 *cais i drosi cwota llaeth yn barhaol* |
| Mawrth | 31 | Diwedd y flwyddyn gwota |
| | | Dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflen: |
| | | • MQ/1 *cais i gofrestru trosglwyddo cwota llaeth yn barhaol* |
| | | • MQ/*3 hysbysiad trosglwyddo cwota llaeth (les) yn barhaol* |

This publication was archived on 31 March 2015

# Rhan 3

## Beth mae'r Asiantaeth Taliadau Gwledig yn ei wneud

Er 1 Ebrill 1994 bu'r Asiantaeth Taliadau Gwledig (y Bwrdd Ymyrraeth gynt) yn gyfrifol am weinyddu cwotâu llaeth ledled y Deyrnas Unedig.

Rydym yn gyfrifol am: DPQR, Rheoliad 4

- gadw'r gofrestr o bob deiliad cwota llaeth,
- cymeradwyo prynwyr cyfanwerthu,
- delio â cheisiadau i gofrestru pob trosglwyddiad, les neu drosi cwota yn y Deyrnas Unedig, a chadarnhau newidiadau i'r cynhyrchwyr a'r prynwyr dan sylw,
- cyfrif y lefïau y mae'n rhaid i werthwyr uniongyrchol a phrynwyr eu talu,
- danfon anfonebau at werthwyr uniongyrchol a phrynwyr ar gyfer lefïau,
- casglu lefïau a'u talu i'r Comisiwn Ewropeaidd, ac
- atalfaelu ac adfer cwota.

Mae'r gofrestr cwotâu yn rhestru enwau a chyfeiriadau pob deiliad cwota llaeth, faint o gwota sydd ganddynt, sail braster menyn cwota cyfanwerthu, a manylion y prynwr(wyr) y cofrestrwyd y cwota cyfanwerthu ar eu cyfer.

### Rhifau cofrestru masnachwyr

Yn ogystal â'ch Dynodydd Busnes Sengl (SBI) mae gan bob cynhyrchwr neu ddeiliad cwota rif cofrestru masnachwr, y byddwn yn ei ddefnyddio ar yr holl bapurau a ddanfonwn atoch.

Os ydych wedi cofrestru gyda'r RPA ar gyfer y Cynllun Taliad Sengl (SPS), bydd gennych SBI ar wahân ar gyfer SPS ac ar gyfer cwotâu llaeth.

Dylech ddefnyddio eich rhif cofrestru masnachwr wrth gysylltu â ni ac ar bob ffurflen cwota llaeth.

### Cofrestru cynhyrchwyr llaeth newydd

Er mwyn cofrestru gyda'r Asiantaeth Taliadau Gwledig, rhaid i gynhyrchwr neu ddeiliad cwota lenwi ffurflen CReg 01 *Cofrestru Cwsmeriaid*. Gellir gofyn am gopïau o'r ffurflen hon oddi wrth ein Canolfan Gwasanaethu Cwsmeriaid ar 0845 603 7777.

### Ystadegau cynhyrchu cyfanwerthu

Mae'r Asiantaeth Taliadau Gwledig yn cyhoeddi hysbysiadau misol i fasnachwyr yn cynnwys gwybodaeth am gyflenwadau cyfanwerthu yn y Deyrnas Unedig.

Cesglir y ffigyrau hyn o adroddiadau a gyflwynir i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig gan gynhyrchwyr.

This publication was archived on 31 March 2015

Mae'r hysbysiadau misol yn cymharu lefelau cynhyrchu llaeth gyda lefelau yn y flwyddyn gwota gyfredol ac mewn blynyddoedd cwota blaenorol.

Pwrpas y data yw dangos tueddiadau mewn cynhyrchu llaeth ac ni ellir dibynnu arno ar gyfer rhagfynegi'r lefi terfynol.

Bydd angen i unrhyw un sy'n defnyddio'r data yn yr hysbysiadau roi ystyriaeth lawn i'w cyfyngiadau wrth wneud penderfyniadau masnachol o ran cwotâu llaeth/cynhyrchu llaeth. Ceir disgrifiad manwl o'r cyfyngiadau yn yr hysbysiadau.

Mae'r hysbysiadau misol i fasnachwyr ar gael ar wefan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig yn www.rpa.defra.gov.uk, neu trwy ffonio ein Llinell Gymorth (Atodiad 1 y Canllaw hwn).

This publication was archived on 31 March 2015

# Rhan 4

## Daliadau a chwotâu cynhyrchwyr

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth o ran pawb sy'n cynhyrchu llaeth a/neu sy'n ddeiliaid cwota llaeth.

Mae cwota fel arfer ynghlwm wrth ddaliad ac yn cael ei gofrestru yn enw'r person neu fusnes sy'n feddianwyr y daliad. Os oes newid ym meddiant daliad y mae cwota ynghlwm iddo, golyga hynny fel arfer fod gan feddiannydd newydd y daliad yr hawl i'r cwota sydd ynghlwm iddo.

Y diffiniad o ddaliad yn Rheoliadau'r Gymuned Ewropeaidd yw pob darn o dir ym meddiant y cynhyrchwr o fewn tiriogaeth yr Aelod Wladwriaeth. Os yw eich busnes yn ffermio mwy nac un fferm, golyga hynny y bydd y ffermydd yn cael eu hystyried yn un daliad at ddibenion y rheoliadau cwota, hyd yn oed os ydynt mewn rhannau gwahanol o'r Deyrnas Unedig. Rheoliad y Cyngor 1782/03, Erth. 2(b)

### Cofrestru gyda'r Asiantaeth Taliadau Gwledig

Mae'n rhaid ichi gofrestru gyda'r Asiantaeth Taliadau Gwledig os oes gennych gwota llaeth neu'n cynhyrchu llaeth i'w gyflenwi i brynwr neu i'w farchnata'n werthiannau uniongyrchol. Rhoddir Dynodydd Busnes Sengl ichi a fydd yn gymwys ar gyfer eich daliad cyfan ac a ddefnyddir ar gyfer y rhan fwyaf o'ch trafodion gyda'r Asiantaeth Taliadau Gwledig. Cewch hefyd rif cofrestru masnachwr y dylech ei ddefnyddio wrth gysylltu â'r Adran Cwotâu Llaeth. DPQR, Rheoliad 6(1)

Os ydych wedi cofrestru gyda'r RPA ar gyfer y Cynllun Taliad Sengl (SPS), bydd gennych SBI ar wahân ar gyfer SPS ac ar gyfer cwotâu llaeth.

Gallwch gael mwy nac un cofrestriad os yw eich daliad yn cynnwys mwy nac un menter laeth ar wahân, er enghraifft, os oes gennych fuchesi ar wahân ar ffermydd gwahanol. Byddai'n rhaid i gyflenwadau llaeth ac ati gael eu cofnodi ar wahân gan eich prynwr llaeth, ac ni ellir trin y ddau gofrestriad llaeth yn un at ddibenion y lefi. DPQR, Rheoliad 4(7)

Nid oes gennych hawl i gael mwy nac un cofrestriad os yw eich daliad yn un fenter laeth ond yn cynnwys tir sy'n eiddo ichi a thir yr ydych yn denant arno, neu oherwydd eich bod eisiau cadw dau ddarn o gwota ar wahân at ddibenion braster menyn.

Os bodlonwch rai amodau, gallwch drosglwyddo cwota i gynhyrchwyr eraill naill ai dros dro (h.y. ar gyfer y flwyddyn gwota gyfredol yn unig) neu'n barhaol.

Gall cynhyrchwyr drosglwyddo cwota i unrhyw gynhyrchwr arall yn y Deyrnas Unedig, ac eithrio rhai mewn rhai Ardaloedd Ynysoedd Yr Alban, ni allwch ond trosglwyddo cwota naill ai dros dro neu'n barhaol neu o fewn yr un ardal.

Os bodlonwch rai amodau, gallwch hefyd drosglwyddo cwota o werthiannau uniongyrchol i gyfanwerthol ac fel arall, naill ai'n barhaol neu dros dro, fel bod eich cwota'n cydweddu'n agosach i'ch patrymau marchnata.

This publication was archived on 31 March 2015

### Cynhyrchu llaeth o dan drefniadau ffermio cyfran

Mae gweithredu rheolau cwota llaeth ar gyfer cynhyrchu llaeth o dan drefniadau ffermio cyfran yn gallu bod yn gymhleth oherwydd yr amrywiaeth o drefniadau o'r fath. Os ydych yn bwriadu cynhyrchu llaeth trwy gytundeb ffermio cyfran fe'ch cynghorir i drafod eich amgylchiadau penodol gyda'r Asiantaeth Taliadau Gwledig cyn dechrau'r trefniant.

This publication was archived on 31 March 2015

# Rhan 5

## Cynhyrchwyr cyfanwerthu

Mae'r adran hon yn esbonio'r rheolau sy'n berthnasol i'r sawl sy'n:

- cynhyrchu llaeth a gyflenwir yn gyfanwerthol.

### Cyflenwadau i brynwr

Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu fod rhaid defnyddio cynnwys braster menyn llaeth cyflawn i gyfrif y lefi sy'n daladwy. Rhaid ichi gyflenwi llaeth cyflawn i'ch prynwr. Os ydych yn cyflwyno llaeth sgim neu led-sgim, mae'n rhaid ichi lenwi Datganiad Gwerthiannau Uniongyrchol Blynyddol (Ffurflen MQ/15) i sicrhau bod y llaeth cyflawn sydd gyfwerth â'r llaeth hwn yn cael ei gynnwys wrth gyfrif y lefi. Cysylltwch â'r Asiantaeth Taliadau Gwledig (Atodiad 1 y Canllaw hwn) i gael cyfarwyddyd pellach.

Dylech wybod y gallech fod yn cyflawni trosedd os ydych yn gostwng yn artiffisial gynnwys braster menyn cyflenwadau i'ch prynwr.

### Cofrestru gyda chynhyrchwyr llaeth

Rhaid i bob deiliad cwota cyfanwerthu gofrestru eu cwota gydag un prynwr llaeth cymeradwy neu ragor. Rhaid ichi ofalu fod eich dewis brynwr wedi'i gymeradwyo gan yr RPA i gyflenwi llaeth. DPQR, Rheoliad 6

Gallwch wirio a yw prynwr penodol wedi'i gymeradwyo trwy ffonio ein Llinell Gymorth (Atodiad 1 y Canllaw hwn).

Gallwch benderfynu pa brynwr i'w ddefnyddio, os fydd eich dewis brynwr yn eich derbyn. Gallwch hefyd:

- gyflenwi mwy nac un prynwr, a
- newid prynwyr yn ystod y flwyddyn gwota.

Ond dylech gadarnhau a yw eich contract yn caniatáu ichi ddefnyddio mwy nac un prynwr neu newid prynwyr.

### Newid o un prynwr i un arall yn ystod blwyddyn gwota

Rhaid i gynhyrchwyr sy'n newid prynwyr ofalu eu bod yn **gadael digon o gwota gyda'u prynwr gwreiddiol** i ddarparu ar gyfer cyflenwadau wedi'u haddasu ar gyfer braster menyn a wnaed yn barod. Rheoliad y Cyngor 1234/07, Erth. 81; DPQR, Rheoliad 23

Os ydych wedyn yn prynu cwota ychwanegol, gall hyn effeithio eich sail braster menyn o hynny ymlaen. Gall unrhyw symud cwota sy'n digwydd yn ddiweddarach effeithio eich sail braster menyn o hynny ymlaen. O dan amgylchiadau felly bydd eich cofrestriad cwota gyda'r naill brynwr a'r llall yn cael ei addasu ar ddiwedd y flwyddyn gwota. DPQR, Rheoliad 23(7)

This publication was archived on 31 March 2015

Os yw'r sail braster menyn parhaus yn cynyddu, efallai eich bod wedi gadael gormod o gwota gyda'r prynwr gwreiddiol i ganiatáu ar gyfer y cyflenwadau a wnaed. Bydd y cwota dros ben yn cael ei symud oddi wrth y prynwr gwreiddiol i'r prynwr newydd. DPQR, Rheoliad 23(9)

Os yw'r sail braster menyn parhaus yn lleihau, efallai nad oes gennych ddigon o gwota gyda'r prynwr gwreiddiol i ganiatáu ar gyfer y cyflenwadau a wnaed. Mewn sefyllfa felly, bydd cwota yn cael ei symud yn ôl i'ch prynwr gwreiddiol oddi wrth y prynwr newydd. DPQR, Rheoliad 23(9)

Os nad oes gennych ddigon o gwota wedi'i gofrestru gyda'ch prynwr gwreiddiol i ganiatáu ar gyfer cyflenwadau pan newidiwch brynwyr, bydd unrhyw gwota ychwanegol a brynwch (boed yn barhaol neu dros dro) yn cael ei gofrestru gyda'ch prynwr gwreiddiol hyd nes yr ymdriniwyd â'ch cyflenwadau wedi'u haddasu ar gyfer braster menyn. DPQR, Rheoliad 23(7)

## Cyflenwi mwy nac un prynwr

Dylai cynhyrchwyr ofalu fod digon o gwota wedi'i gofrestru gyda phob un o'u prynwyr llaeth i ganiatáu ar gyfer cyflenwadau er mwyn osgoi lefi.

Os oes gennych gwota wedi'i gofrestru gyda mwy nac un prynwr, gallwch wneud cais i'w symud rhyngddynt dros dro ar ffurflen MQ/26 *Addasu dyraniad cwota rhwng prynwyr*. [Os oes gennych gwota parhaol gyda mwy nac un prynwr, byddwn dros dro'n symud unrhyw gwota heb ei ddefnyddio gydag un prynwr i ganiatáu ar gyfer cyflenwadau dros-gwota i'r llall, fel rhan o'r cyfrif lefi blynyddol.] DPQR, Rheoliad 23(11)

## Cadw cofnodion

Fel unrhyw fusnes arall, rhaid i gynhyrchwyr gadw cofnodion i ddangos:

- sut maen nhw wedi rheoli eu cwotâu, a
- manylion eu cynhyrchu a'u gwerthiannau.

Efallai y bydd angen inni archwilio'r cofnodion hyn o bryd i'w gilydd.

Ceir rhagor o fanylion am ofynion cadw cofnodion yn Rhan 15 y Canllaw hwn.

## Cyfrif y Lefi

Rhaid i brynwyr addasu pob un o'u ffigyrau cyflenwi cyflenwyr i roi ystyriaeth i'w cynnwys braster. Mae Rhan 10 y canllaw hwn yn esbonio sut mae'r addasiad yn cael ei gyfrif.

Defnyddir y ffigyrau cyflenwadau braster menyn wedi'u haddasu ar gyfer cyfrif y lefi.

This publication was archived on 31 March 2015

# Rhan 6

## Gwerthwyr Uniongyrchol

Mae'r adran hon yn esbonio'r rheolau sy'n berthnasol i'r sawl sy'n:

- cynhyrchu llaeth neu gynnyrch llaeth i'w marchnata'n uniongyrchol i'r cyhoedd, h.y. gwerthwr uniongyrchol,
- dal cwota gwerthiannau uniongyrchol ond yn cyflenwi eu holl laeth i brynwr cyfanwerthu.

Rhaid i bob gwerthwr uniongyrchol gofrestru eu cwota gyda'r Asiantaeth Taliadau Gwledig. Mae 'gwerthiannau uniongyrchol' yn cynnwys cynhyrchu, prosesu a marchnata llaeth a/neu gynnyrch llaeth o fewn un endid cyfreithiol. Mae'r term 'marchnata' llaeth a/neu gynnyrch llaeth yn cynnwys llaeth a gyflenwir i'w ddefnyddio oddi ar y daliad boed gan bobl neu anifeiliaid. Fodd bynnag, mae gwerthiannau uniongyrchol hefyd yn cynnwys llaeth neu gynnyrch llaeth sy'n cael eu gwerthu ar y daliad, e.e. mewn siop fferm neu gaffi. Os oes gennych unrhyw amheuon a yw eich cynhyrchu llaeth yn gymwys i fod yn werthiannau uniongyrchol dylech gysylltu â'n Llinell Gymorth (Atodiad 1 y Canllaw hwn).

Rheoliad y Cyngor 1234/07, Erth. 65

Nid yw prosesu contract yn cael ei gynnwys yn y diffiniad o werthiannau uniongyrchol, ac nid felly chwaith gyflenwi llaeth cyflawn wedi'i bastwreiddio mewn swmpgyflenwad i'w brosesu ymhellach. Os yw corff ar wahân yn prosesu eich llaeth, caiff hynny ei ystyried yn drafodiad cyfanwerthu. Os ydych wedi creu busnes ar wahân i wneud eich prosesu, h.y. mae'n endid ariannol ar wahân ag iddo statws treth a TAW ar wahân, bydd y busnes hwnnw hefyd yn cael ei ystyried yn gorff ar wahân. Yn y naill sefyllfa a'r llall, rhaid i'r corff prosesu gael ei gymeradwyo gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig i fod yn brynwr. Gallech fod yn agored i gael eich erlyn a wynebu gorfod talu rhagor o lefi os byddwch yn delio â phrynwr heb ei gymeradwyo.

Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 6

### Datganiad blynyddol

Os ydych yn gwneud gwerthiannau uniongyrchol, neu os oes gennych gwota gwerthiannau uniongyrchol ar <u>unrhyw adeg</u> yn ystod y flwyddyn gwota, mae gennych gyfrifoldeb cyfreithiol i gyflwyno datganiad blynyddol (ffurflen MQ/15) i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig. Ar ddiwedd y flwyddyn gwota, danfonir pecyn gwerthiannau uniongyrchol (yn cynnwys ffurflen MQ/15) at bawb a chanddynt gwota gwerthiannau uniongyrchol yn ystod y flwyddyn. Os ydych yn gwneud gwerthiannau uniongyrchol, ond nad oes gennych gwota gwerthiannau uniongyrchol, ni fyddwch yn cael ffurflen yn awtomatig. Rhaid ichi ffonio ein Llinell Gymorth (Atodiad 1 y Canllaw hwn) a gofyn iddynt ddanfon ffurflen MQ/15 atoch.

Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 11

Eich cyfrifoldeb chi yw gofalu y cyflwynir y ffurflen i'r RPA cyn 15 Mai, h.y. erbyn 14 Mai. Os oes gennych gwota gwerthiannau uniongyrchol ond na wnaethoch unrhyw werthiannau uniongyrchol, er hynny mae'n rhaid ichi lenwi ffurflen MQ/15 a chyflwyno datganiad dim. Os na dderbynnir eich datganiad cyn y dyddiad cau, fe gyflwynir cosb.

Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 11(2)

This publication was archived on 31 March 2015

**Os yw eich datganiad yn hwyr a'ch gwerthiannau yn fwy na'ch cwota,** efallai y bydd rhaid ichi dalu'r gyfradd lefi lawn ar bob gwerthiant yn uwch na'r cwota oedd gennych ar 31 Mawrth yn y flwyddyn gwota berthnasol.

Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 11(3)

**Os yw eich datganiad yn hwyr ond fod eich gwerthiannau o fewn eich cwota,** bydd rhaid ichi dalu cosb sydd gyfwerth â chyfanswm y lefi sy'n daladwy ar 0.01% gormodedd, fesul diwrnod calendr y mae'ch datganiad yn hwyr, o'ch cwota ar 31 Mawrth yn y flwyddyn gwota berthnasol. Lleiafswm y gosb yw 100 ewro; uchafswm y gosb yw 1,000 ewro. Caiff y gosb ei throsi i Sterling ar y gyfradd berthnasol ar y 31 Mawrth dan sylw. Os oedd gennych 100,000 litr o gwota, golyga hynny y byddai'n rhaid ichi dalu lefi ar 100 litr ar gyfradd lawn y lefi. Ar gyfradd lefi o 24c y litr, golygai hynny gosb o £24 y dydd.

Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 11(3)

**Os na chyflwynwch eich datganiad erbyn 15 Mehefin,** rhoddir 125 niwrnod o rybudd ysgrifenedig ichi gyflwyno eich datganiad ac os na wnewch hynny caiff eich cwota gwerthiannau uniongyrchol ei atalfaelu a'i roi yn y gronfa wrth gefn genedlaethol.

Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 11(4)

**Os nad ydych yn datgan eich holl werthiannau ac os yw'r Deyrnas Unedig mewn sefyllfa lefi,** bydd rhaid ichi dalu cyfradd lawn y lefi ar yr holl werthiannau nad ydych wedi'u datgan, os oes gennych gwota dros ben ai peidio.

Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 11(3)

**Os cyflwynwch ddatganiad sy'n tanddatgan neu'n gorddatgan faint o laeth a werthwyd gennych** bydd rhaid ichi dalu cosb sydd gyfwerth â chyfanswm damcaniaethol y lefi sy'n daladwy ar 0.5% o gyfanswm y tanddatganiad neu'r gorddatganiad. Pe baech wedi tanddatgan neu orddatgan eich gwerthiannau uniongyrchol gan 20,000 litr, golygai hynny y byddech yn cael cosb ar 100 litr ar gyfradd lawn y lefi. Lleiafswm y gosb a godid fyddai £60 hyd at uchafswm o £600.

DPQR, Rheoliad 36(4)

Pe bai tanddatganiad mewn blwyddyn lefi, ni roddir cosb pan mae union swm y lefi yn fwy na swm y gosb.

Dylid cwblhau'r datganiad blynyddol gan ddangos cyfanswm y llaeth neu'r cynnyrch llaeth mewn litrau. Y cyfraddau trosi a ddefnyddir yw:

| | | |
|---|---|---|
| 1 galwyn | = | 4.54609 litr |
| 1 peint | = | 0.56828 litr |
| 1 pwys (lb) | = | 0.45359 cilogram |

## Addasiad blwyddyn naid

Dyrannwyd cwota'n wreiddiol yn seiliedig ar y llaeth a gynhyrchid mewn blwyddyn 365-diwrnod. Mewn blwyddyn naid, fe gynhyrchir llaeth ychwanegol ond nid oes unrhyw gwota ychwanegol ar gael ar gyfer hyn.

Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 11(1)

Ar eich ffurflen MQ/15, mae'n <u>rhaid</u> ichi ddatgan cyfanswm y llaeth neu gynnyrch llaeth yr ydych wedi'u marchnata yn y flwyddyn gwota. Gwnawn addasiad i lawr o 1/366fed o ffigwr eich cyfanswm cynhyrchu blynyddol er mwyn adlewyrchu'r diwrnod cynhyrchu ychwanegol.

## Beth i'w ddatgan ar eich MQ/15

Bydd y cynnyrch cyntaf a gynhyrchwyd allan o unrhyw gyflenwad o laeth sy'n gadael eich daliad yn penderfynu beth gaiff ei ddatgan ar eich datganiad blynyddol. Rhaid ichi ddatgan cyfwerth â llaeth cyflawn y cynnyrch cyntaf gaiff ei farchnata. Er enghraifft:

This publication was archived on 31 March 2015

**Os ydych yn gwneud caws**, ac os yw unrhyw sgil gynnyrch maidd yn gadael y daliad cyn y caws, cyfwerth llaeth cyflawn y maidd ddylid ei ddatgan. Ni fydd rhaid i'r caws, pan gaiff ei farchnata, gael ei ddatgan. Fodd bynnag, os yw'r maidd yn cael ei fwydo i anifeiliaid ar eich daliad, cyfwerth llaeth llawn y caws pan gaiff ei farchnata fydd yn cael ei gynnwys ar y datganiad blynyddol.

**Os ydych yn gwahanu eich llaeth yn sgim a hufen** mae'n rhaid ichi ddatgan cyfwerth llaeth llawn y cynnyrch cyntaf sy'n gadael eich daliad. Os ydych yn bwydo'r sgim i'ch stoc neu'n ei waredu ond yn gwerthu'r hufen, mae'n rhaid ichi ddatgan cyfwerth llaeth llawn yr hufen a werthwyd. Mae hyn yn wir hefyd os gwerthwch y sgim ond y gwaredwch yr hufen. Os mai'r cynnyrch cyntaf sy'n gadael eich daliad yw'r llaeth sgim, yr ydych yn ei gyflenwi i brynwr, cysylltwch â'r Llinell Gymorth Cwotâu Llaeth (Atodiad 1 y Canllaw hwn) i drafod eich sefyllfa.

Os ydych yn ansicr ynghylch goblygiadau mesur y cynnyrch llaeth yr ydych yn eu gwerthu'n uniongyrchol yn erbyn eich cwota, cysylltwch â'r Llinell Gymorth (Atodiad 1 y Canllaw hwn).

## Llaeth a ddefnyddir ar y daliad

Nid yw llaeth cyflawn a ddefnyddir ar eich daliad i'w fwydo i stoc, i'w yfed gan y teulu neu sy'n cael ei wastraffu neu ei waredu ar y daliad, yn cael ei gyfrif yn erbyn cwota. Pan mai dim ond peth o'r llaeth sy'n cael ei ddefnyddio ar y daliad, rhaid datgan cyfwerth llaeth llawn y cynnyrch sy'n cael ei farchnata.

Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 6

## Llaeth tor

Yn 2004 cafodd yr RPA gadarnhad gan Gomisiwn yr Undeb Ewropeaidd fod llaeth tor yn cael ei gynnwys yn y diffiniad o laeth o dan y rheoliadau cwota llaeth. O 1 Ebrill 2005, mae pob cynhyrchwr sy'n masnachu neu'n gwerthu llaeth tor at ddefnydd masnachol wedi gorfod ei ddatgan yn werthiant uniongyrchol. Dylai unrhyw un sydd ynghlwm wrth fasnachu, gwerthu neu brynu llaeth tor gystylltu â'r Llinell Gymorth Cwotâu Llaeth i gael cyngor.

### Trosi cwota dros dro

Mae'r Datganiad Gwerthiannau Uniongyrchol Blynyddol (ffurflen MQ/15) yn cynnwys cais am drosi dros dro. Rhaid i gynhyrchwyr sydd eisiau gwneud cais am drosi cwota gwerthiannau uniongyrchol dros dro i gwota cyfanwerthu neu fel arall lenwi adran berthnasol ffurflen MQ/15. Ceir gwybodaeth fanwl am drosi dros dro yn Adran 11 y Canllaw hwn.

## Ailddyrannu cwota dros dro yn dilyn cyfyngiadau ar symud buchesi

Dylai gwerthwyr uniongyrchol sy'n gymwys ar gyfer ailddyrannu cwota dros dro yn dilyn cyfyngiad ar symud buchesi wneud cais i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig yn Lloegr, Yr Alban a Chymru neu i'r Adran Amaeth a Datblygu Gwledig yng Ngogledd Iwerddon. Gwneir y dyfarniad i gynhyrchwyr cymwys allan o gwota heb ei ddefnyddio sydd ar gael ar lefel genedlaethol. Ceir rhagor o fanylion am ailddyrannu cwota dros dro yn Rhan 12 y Canllaw hwn.

## Lefi gwerthiannau uniongyrchol

Nid yw lefi gwerthiannau uniongyrchol ond yn daladwy pan mae cyfanswm y gwerthiannau uniongyrchol ar gyfer y Deyrnas Unedig yn gyffredinol yn fwy na chyfanswm y cwota gwerthiannau uniongyrchol.

This publication was archived on 31 March 2015

Cyfrifir cyfanswm y lefi gwerthiannau uniongyrchol ar gyfer y Deyrnas Unedig gan ddefnyddio'r un gyfradd o lefi a godir ar gyfer cyflenwadau cyfanwerthol. Fodd bynnag, codir lefi ar gyfradd wanhaëdig ar gynhyrchwyr sydd dros eu cwota. Bydd i ba raddau y caiff y lefi ei wanhau yn dibynnu ar faint o gwota dros ben sydd ar gael. Mae'r dull a ddefnyddir ar gyfer cyfrif y gyfradd wanhaëdig yn Rhan 13 y Canllaw hwn.

## Talu lefi

Wedi i'r lefi gael ei gyfrif, bydd unrhyw anfonebau a ddanfonwyd ar gyfer lefi yn daladwy cyn 1 Hydref. Codir llog ar daliadau a dderbynnir ar neu wedi 1 Hydref. DPQR, Rheoliad 31(5)

Pan welir yn y man fod cynhyrchwyr wedi osgoi talu lefi trwy lenwi datganiad blynyddol yn anghywir, caiff y llog ei ôl-ddyddio i 1 Hydref y flwyddyn yr oedd y lefi yn daladwy ar ei chyfer.

## Gofynion cadw cofnodion

Mae rheoliadau'n mynnu fod rhaid i werthwyr uniongyrchol gadw cofnodion am eu buches ac o faint o laeth a gynhyrchwyd ac a gafodd ei farchnata. Rhaid cadw'r cyfryw gofnodion am dair blynedd, yn cychwyn o ddiwedd y flwyddyn gwota y maent yn berthnasol iddynt. Ceir manylion llawn y cofnodion y mae'n rhaid ichi eu cadw yn Rhan 15 y Canllaw hwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y mathau o gofnodion y mae'n rhaid ichi eu cadw, dylech ffonio'r Llinell Gymorth (Atodiad 1 y Canllaw hwn). Mae ffurflen MQ/25D ar gael i werthwyr uniongyrchol i'w cynorthwyo gyda chadw eu cofnodion. Ffoniwch ein Llinell Gymorth os hoffech gael copi o'r ffurflen hon. Cynhwysir ffurflen MQ/25D yn y pecyn gwerthiannau uniongyrchol a ddanfonwn allan ar ddiwedd y flwyddyn gwota.

This publication was archived on 31 March 2015

# Rhan 7

## Prynwyr

Rhaid i gynhyrchwyr sy'n dymuno cyflenwi llaeth yn gyfanwerthol ddefnyddio prynwr a gymeradwywyd gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig.

Mae'r adran hon yn esbonio:

- y rheolau sy'n berthnasol i brynwr cymeradwy, a
- sut i wneud cais i gael eich cymeradwyo'n brynwr.

Ceir gwybodaeth fanylach ar y rhannau hynny o'r system cwotâu llaeth sydd fwyaf perthnasol i brynwyr yn y Llawlyfr Prynwyr Cwotâu Llaeth sydd ar gael ar ein gwefan www.rpa.defra.gov.uk trwy ddilyn y cysylltiadau i Gwotâu Llaeth. Danfonir copi at bob prynwr cymeradwy.

### Prynwyr cymeradwy

Y diffiniad o 'brynwr' yw person neu gwmni sy'n prynu llaeth yn gyfanwerthol oddi wrth gynhyrchwr i'w:

Rheoliad y Cyngor 1234/07, Erth. 65

- drin neu i'w brosesu – gan gynnwys prosesu contract, neu
- i'w werthu i berson neu gwmni arall i'w drin neu i'w brosesu.

Fodd bynnag, mae prosesu contract yn cael ei ddiffinio hefyd yn gyflenwad ac mae'n bosib na fydd llaeth yn cael ei brynu mewn amgylchiadau o'r fath. Mae'n dal yn angenrheidiol i rywun sy'n contract brosesu ar ran trydydd parti gael eu cymeradwyo'n brynwr.

Oherwydd fod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae yn gweithredu'r system cwotâu llaeth, rhaid i bob prynwr sy'n gweithredu mewn Aelod Wladwriaeth gael eu cymeradwyo gan y corff perthnasol yn yr Aelod Wladwriaeth honno. Yn y Deyrnas Unedig, yr Asiantaeth Taliadau Gwledig yw'r corff hwnnw.

Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 23

Nid yw cymeradwyaeth gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig yn awgrymu unrhyw farn am statws masnachol unrhyw brynwr arbennig. Golyga eu bod wedi:

Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 23

- cofrestru gyda'r Asiantaeth Taliadau Gwledig, ac
- wedi cytuno cydymffurfio â rheoliadau'r lefi llaeth atodol.

Mae rhestr o brynwyr cymeradwy ar gael oddi wrth yr Asiantaeth Taliadau Gwledig.

### Cyfrifoldebau prynwr

Rhaid i bob prynwr cofrestredig:

DPQR, Rheoliad 6

- gadw cofnodion am gynhyrchwyr a'u cyflenwadau, cwotâu a chynnwys braster menyn,
- gymryd samplau rheolaidd o bob cynnyrch a gyflenwir gan bob cynhyrchwr, a
- threfnu fod y samplau'n cael eu dadansoddi i gadarnhau faint o fraster sydd ynddynt.

This publication was archived on 31 March 2015

Rhaid iddynt hefyd ddanfon at yr Asiantaeth Taliadau Gwledig:

- ddatganiadau rheolaidd o'r cyflenwadau a gawsant oddi wrth gynhyrchwyr, a — DPQR, Rheoliad 33
- datganiad blynyddol o gyfanswm y cyflenwadau a'r cynnwys braster menyn erbyn 14 Mai (ffurflen MQ/13); a — Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 8(2)
- rhestr o gynhyrchwyr sydd wedi cofrestru gyda nhw ond na wnaethant unrhyw gyflenwadau yn ystod blwyddyn gwota, a — Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 8(2)
- rhestr o gynhyrchwyr sydd wedi cofrestru gyda nhw ond a roddodd y gorau i wneud cyflenwadau yn ystod blwyddyn gwota, a — Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 8(2)
- ffurflen MQ/10 ar gyfer cynhyrchwr sy'n ymuno â nhw o grŵp prynwr arall. — DPQR, Rheoliad 23

Rhaid iddynt gyfrif a chasglu'r lefi sy'n daladwy gan bob cynhyrchwr yn eu grŵp. Er mwyn gwneud hynny mae'n rhaid iddynt:

- gyfrif ffigyrau cyflenwi cyfanswm a ffigyrau wedi'u haddasu ar gyfer braster menyn,
- addasu ffigyrau cyflenwi pob cynhyrchwr er mwyn rhoi ystyriaeth i lefel cynnwys braster eu cyflenwadau,
- danfon manylion cyflenwadau pob cynhyrchwr at yr Asiantaeth Taliadau Gwledig yn rhan o'u Hadroddiad Blynyddol MQ/13,
- cadarnhau eu sefyllfa lefi derfynol i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig,
- defnyddio'r datganiad lefi terfynol a ddarparwyd gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig i gyfrif a chadarnhau bil lefi unigol pob cynhyrchwr, a
- chasglu unrhyw lefi sy'n daladwy a'i dalu i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig.

Rhaid i gynhyrchwyr gytuno hefyd i gydymffurfio gyda'r rheoliadau ac amodau cwota sy'n cynnwys:

- rhoi gwybod i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig am newidiadau sy'n effeithio eu busnes, adeiladau a labordai, a
- chadw cofnodion a'u hargaeledd i'w harchwilio gan swyddogion awdurdodedig

### Newid eich prynwr llaeth

Os newidiwch brynwr llaeth, rhaid i'ch prynwr newydd ddanfon ffurflen MQ/10, (*addasu cwota prynwr*), atom erbyn 14 Mai ar ôl diwedd y flwyddyn gwota. — DPQR, Rheoliad 23

### Gwneud cais am gymeradwyaeth

Gallwch wneud cais i gael eich cymeradwyo'n brynwr trwy ddefnyddio ffurflen MQ/11 *Cais i gael eich cymeradwyo'n brynwr.*

Nid yw cymeradwyaeth yn awtomatig. Cyn iddo gael ei ganiatáu, cynhelir ymweliadau archwilio â'ch adeiladau busnes a'ch labordy i sicrhau y gall y ddau gyrraedd ein safonau.

Cysylltwch â'n Llinell Gymorth (Atodiad 1 y Canllaw hwn) os ydych yn ystyried gwneud cais i gael eich cymeradwyo'n brynwr.

### Colli statws cymeradwy

Os nad yw prynwr yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cynnyrch Cwotâu Llaeth, gall yr RPA dynnu eu statws cymeradwy oddi arnynt. Rhaid i brynwyr roi gwybod i'w cynhyrchwyr os tynnir eu statws cymeradwy oddi arnynt. — Rheoliad y Comisiwn 595/04 Erth. 23(3)

This publication was archived on 31 March 2015

# Rhan 8

## Trosglwyddo cwota

Gall cwota llaeth, yn gyfanwerthol a gwerthiannau uniongyrchol, newid dwylo pan:

- mae newid ym meddiant y tir y mae ynghlwm wrtho, neu

Rheoliad y Cyngor 1234/07 Erth. 74

- mae cynhyrchwyr yn cytuno trosglwyddo cwota rhyngddynt heb dir. Wedi i gwota gael ei drosglwyddo heb dir, mae'r cwota ynghlwm wrth y daliad sydd ym meddiant y trosglwyddai.

DPQR, Rheoliad 13

Mae'r adran hon yn esbonio sut ellir trosglwyddo cwota o un cynhyrchwr i un arall:

- gyda thir, a
- heb dir.

### Mynd â'ch cwota llaeth i fferm newydd

Pan mae tir yn newid dwylo, y drefn arferol yw y dylai'r cwota llaeth gael ei drosglwyddo i'r deiliad cyfreithiol newydd.

Rheoliad y Cyngor 1234/07 Erth. 74

Os yw pawb sydd â buddiant yn y daliad yn cytuno, gall cynhyrchwr fynd â'i gwota – neu ran o'i gwota – gydag ef i fferm newydd. Rhaid rhoi gwybod i'r RPA fod y cwota wedi symud ar ffurflen MQ/1 yn drosglwyddiad heb dir. Os nad ydych yn mynd i gynhyrchu llaeth yn eich fferm newydd, ni fyddwch yn gallu mynd â'ch cwota llaeth gyda chi.

### Trosglwyddo cwota

Gellir trosglwyddo cwota llaeth yn barhaol:

Rheoliad y Cyngor 1234/07 Erth. 74

- trwy werthu'r tir y mae ynghlwm wrtho,
- trwy roi les neu denantiaeth am isafswm cyfnod ar y tir y mae ynghlwm wrtho,
- trwy derfynu les neu denantiaeth am isafswm cyfnod,
- trwy etifeddu'r tir neu ei gael yn rhodd,
- trwy olyniaeth statudol i denantiaeth, neu
- heb dir.

### Lesio tir

Os caniateir tenantiaeth newydd dros dir y mae cwota ynghlwm wrtho, rhaid i'r cwota gael ei drosglwyddo i'r deiliaid newydd, hyd yn oed os nad ydynt yn cynhyrchu llaeth. Nid yw hyn yn berthnasol pan mae'r denantiaeth a ganiateir yn llai na'r isafswm cyfnod a nodir yn y rheoliadau cwota:

DPQR, Rheoliad 16(1)(b) ar gyfer tir yn Lloegr

- yn yr Alban – 8 mis,

DPQ(Yr Alban)R, Rheoliad 16(1)(b)

- yn Lloegr a Chymru – 10 mis, ac

DPQ(Cymru)R, Rheoliad 16(1)(b)

- yng Ngogledd Iwerddon – 12 mis.

DPQR(NI), Rheoliad 16(1)(b)

This publication was archived on 31 March 2015

### Dyddiad trosglwyddo gweithredol

Y 'dyddiad trosglwyddo gweithredol' ar gyfer trosglwyddiadau tir yw'r dyddiad y mae'r hawl i feddiannu'r tir yn newid.

- os ydych yn gwerthu'r tir, y dyddiad fydd dyddiad cwblhau'r gwerthiant,
- os ydych yn gwerthu'r cwota ar sail lesio'r tir, y dyddiad fydd dyddiad cychwyn lesio'r tir, yn unol â'r cytundeb,
- os ydych yn landlord yn trosglwyddo cwota i denant ar ddechrau tenantiaeth, y dyddiad fydd dyddiad cychwyn y denantiaeth, ac
- os ydych yn denant yn trosglwyddo cwota ar ddiwedd tenantiaeth, y dyddiad fydd dyddiad diwedd y denantiaeth. Os nad yw'r denantiaeth newydd yn cychwyn ar yr un diwrnod ag y mae'r hen denantiaeth yn gorffen, dylid dychwelyd y cwota i'r landlord am y cyfnod rhwng y ddau.

### Cofrestru trosglwyddiad gyda'r RPA

Rhaid i'r cynhyrchwr sy'n cymryd meddiant y tir a/neu'r cwota wneud cais inni gofrestru'r trosglwyddiad cwota gan ddefnyddio ffurflen MQ/1 *Cais i gofrestru trosglwyddo cwota llaeth yn barhaol.* DPQR, Rheoliad 9(2)

Rhaid ichi wneud eich cais cyn gynted ag y bo bo modd ar ôl y dyddiad trosglwyddo gweithredol.

Os yw'r newid yn digwydd ar ddiwedd y flwyddyn gwota rhaid derbyn eich ffurflen MQ/1 erbyn 31 Mawrth. Ni fydd ffurflenni sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu derbyn.

Ni fydd ffurflenni wedi'u ffacsio yn cael eu derbyn.

## Dosrannu cwota i dir cyn y trosglwyddiad

### Os yw daliad cyfan yn cael ei drosglwyddo

Mae gan y cynhyrchwr sy'n cymryd meddiant y tir hawl awtomatig i'r holl gwota sydd ynghlwm wrth y daliad ar y dyddiad trosglwyddo gweithredol. Rheoliad y Cyngor 1234/07, Erth.74

### Os yw rhan o ddaliad yn cael ei drosglwyddo

Rhaid i'r cynhyrchwr sy'n trosglwyddo'r tir benderfynu faint o gyfanswm eu cwota sydd ynghlwm wrth y rhan o'u daliad y maen nhw'n ei werthu neu ei lesio. DPQR, Rheoliad 10

Er mwyn gwneud hynny, mae'n rhaid iddynt rannu'r cwota sydd ynghlwm wrth y daliad cyfan rhwng rhannau gwahanol y daliad.

Rhaid i ddyraniad neu 'ddosraniad' cwota:

- roi ystyriaeth i ba ardaloedd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cynhyrchu llaeth, a
- chael ei gytuno gan bawb a chanddynt fuddiant cyfreithiol mewn unrhyw ran o'r daliad, e.e. landlord neu forgeisiai.

Rhaid i'r dosraniad gael ei gytuno gan unrhyw un a chanddynt fuddiant mewn unrhyw ran o'r daliad, hyd yn oed os nad oes ganddynt fuddiant yn y darn o dir sy'n cael ei drosglwyddo. Ni ddylai'r dosraniad sy'n dilyn fod fel arfer yn uwch na chanllaw DEFRA o 20,000 litr yr hectar.

This publication was archived on 31 March 2015

**Anghytundebau ynghylch dosraniad**

Mae Atodlen 1 Rheoliadau Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon ac Atodlen DPQR Yr Alban yn rhoi manylion am ddosrannu cwota llaeth trwy gyfryngu yn Lloegr a Chymru, Yr Alban a Gogledd Iwerdddon. DPQR

Os na ellir cael cytundeb ar ddosrannu cwota, dylid mynd â'r mater at gyfryngydd.

Gall y trosglwyddydd a'r trosglwyddai gytuno rhyngddynt pwy maen nhw eisiau cyfryngu ar y mater. Rhaid ichi roi gwybod i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig pwy yw'r cyfryngydd a benodwyd.

Fel arall, yn Lloegr a Chymru, gall y trosglwyddydd neu'r trosglwyddai wneud cais i Lywydd Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) i benodi cyfryngydd. Rhaid i'r sawl sy'n gwneud cais roi gwybod i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig y gwnaed y cais i'r RICS.

Dylid gwneud ceisiadau i benodi cyfryngydd yng Ngogledd Iwerddon i Lywydd Cymdeithas y Gyfraith Gogledd Iwerddon. Yn Yr Alban, dylid gwneud ceisiadau i Lys Tir Yr Alban.

Rhaid cynnal pob cyfryngiad yn unol â darpariaethau'r Atodlen berthnasol a bydd y cyfryngydd yn seilio ei ddyfarniad ar gasgliadau a ddaeth iddynt o ran yr ardaloedd a ddefnyddiwyd i gynhyrchu llaeth yn y cyfnod pum mlynedd diwethaf y cynhyrchwyd llaeth ynddynt cyn y newid meddiant. Bydd cymrodeddwr yn codi tâl am gyflawni'r dosraniad.

## Y bwriad i ddosrannu Cwota i Dir

Mae'r 'bwriad i ddosrannu' yn gytundeb cyfreithiol rhwng meddiannydd y tir ag eraill a chanddynt fuddiannau ynddo, sy'n dyrannu cwota i rannau gwahanol y daliad. Golyga hynny, os ydych eisiau gwerthu neu lesio rhan o'r daliad, fod faint o gwota a ddosranwyd i'r tir wedi'i gytuno'n barod. DPQR, Rheoliad 11

Rhaid i'r 'bwriad i ddosrannu':

- roi ystyriaeth i ba ardaloedd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cynhyrchu llaeth, a
- chael ei gytuno gan bawb a chanddynt fuddiant cyfreithiol mewn unrhyw ran o'r daliad, e.e. landlord neu forgeisiai.

Rhaid i'r cytundeb a wnewch gael ei gofnodi a'i ddanfon atom ar ffurflen MQ/8 *Bwriad i ddosrannu cwota*.

Bydd wedyn yn ddilys a gorfodol am chwe mis o'r dyddiad gweithredol ar y ffurflen, onid yw'r cynhyrchwr sy'n dal y cwota, a phawb arall a chanddynt fuddiant yn y daliad, yn ei ddiddymu trwy ysgrifennu atom. Nid yw'r ffurflen bwriad i ddosrannu yn cynnwys trosglwyddiadau heb dir.

## Trosglwyddo tir heb gwota

Ni ellir trosglwyddo tir y mae cwota ynghlwm wrtho trwy

- ei werthu,
- caniatau les neu denantiaeth,
- terfynu les neu denantiaeth, neu
- etifeddiaeth, rhodd neu olyniaeth statudol i denantiaeth

heb i'r cwota gael ei drosglwyddo ar yr un pryd – hyd yn oed os nad yw'r meddiannydd newydd eisiau'r cwota.

This publication was archived on 31 March 2015

Pan mae'r Asiantaeth Taliadau Gwledig yn gweld fod deiliad cwota wedi trosglwyddo tir trwy un o'r dulliau uchod heb gwota, fe gymer y camau angenrheidiol i gywiro'r sefyllfa. Gall hynny olygu fod y cwota yn cael ei gofrestru'n awtomatig yn enw'r meddiannydd presennol, neu'n cael ei roi yn y Gronfa Wrth Gefn Genedlaethol.

### Trosglwyddo cwota heb dir

Gall unrhyw ddeiliad cwota drosglwyddo cwota allan heb dir, ar yr amod fod pawb a chanddynt fuddiant yn y daliad yn cytuno. Dim ond cynhyrchwr all drosglwyddo cwota i mewn heb dir, h.y. rhywun sy'n cynhyrchu llaeth ar y pryd neu a fydd yn dechrau cynhyrchu llaeth yn fuan iawn.

Ar ôl iddo gael ei drosglwyddo, daw'r cwota ynghlwm wrth ddaliad y trosglwyddai. Mae'r holl reolau am ddosrannu a throsglwyddo cwota yn berthnasol i'r cwota ar y daliad newydd o hynny ymlaen.

### Cwota wedi ac heb ei ddefnyddio

Gallwch drosglwyddo cwota wedi ac heb ei ddefnyddio ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn gwota. Wrth ichi gyfrif faint o'ch cwota a ddefnyddiwyd, mae'n **rhaid** ichi roi ystyriaeth i:

- werthiannau uniongyrchol a wnaed gennych yn barod, a/neu
- gyflenwadau cyfanwerthol a wnaed gennych yn barod, wedi'u haddasu ar gyfer braster menyn.

Os trosglwyddwch gwota wedi'i ddefnyddio allan byddwn yn:

- cofrestru trosglwyddiad parhaol y cwota i'r deiliad newydd (y trosglwyddai),
- ailgyfrif eu sail braster menyn i'r dyfodol er mwyn rhoi ystyriaeth i'r cwota y maent newydd ei dderbyn, ac yn
- dychwelyd dros dro y cwota a ddefnyddiwyd ichi am weddill y flwyddyn gwota gyfredol, ar y sail braster menyn sydd gennych ar y pryd.

Ni all y cynhyrchwr sy'n cymryd meddiant y cwota a ddefnyddiwyd gynhyrchu ar ei gyfer tan ddechrau'r flwyddyn gwota nesaf.

Bydd y cwota a ddefnyddiwyd yn parhau i fod yn gofrestredig gyda'ch prynwr tan ddiwedd y flwyddyn gwota gyfredol at ddibenion cyfrif y lefi.

Os byddwch yn trosglwyddo allan gwota cyfanwerthu, byddwn yn rhoi gwybod i'ch prynwr llaeth cyn inni brosesu'r trafodiad, fel y gallant gadarnhau nad yw cwota wedi'i ddefnyddio yn cael ei drosglwyddo allan yn gwota glân.

Os nad yw'r cwota sy'n cael ei drosglwyddo yn unol â'r hyn a ddisgrifir ar ffurflen gais MQ/1, bydd yr RPA yn prosesu'r trosglwyddiad ar gyfer y cyfanswm isaf sydd ar gael yn unig.

This publication was archived on 31 March 2015

## Cyfyngiadau daearyddol ar drosglwyddiadau

Ni chewch drosglwyddo i nac o unrhyw un o'r grwpiau hyn o Ynysoedd Yr Alban, lle y byddai'r cyfryw drosglwyddiad yn arwain at gynyddu neu leihau cyfanswm y cwota sydd ar gael i'w ddefnyddio yn yr ardaloedd a glustnodwyd: DPQR, Rheoliad 16

1. Ynys Erch (ac eithrio ynys Stronsay).
2. Ynysoedd Jura, Gigha, Arran, Bute, Great Cumbrae a Little Cumbrae, penrhyn Kintyre i'r de o Tarbert a rhan o benrhyn Cowal.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau eraill ar drosglwyddo cwota rhwng rhanbarthau neu grwpiau prynwyr.

### Newidiadau i sail braster menyn ar ôl trosglwyddiad parhaol

Os yw sail braster menyn unrhyw gwota cyfanwerthol a drosglwyddwch yn wahanol i'ch seiliau braster menyn parhaus neu barhaol, bydd eich seiliau braster menyn parhaus neu barhaol yn cael eu hailgyfrif, Ym mhob sefyllfa, eich sail newydd fydd cyfartaledd braster menyn y cwota a drosglwyddwyd i mewn a'ch braster menyn presennol, gan roi ystyriaeth i gyfansymiau'r naill a'r llall.

Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 7

Ceir manylion y dull o gyfrif yn Rhan 10 y Canllaw hwn.

## Gwirio a goruchwylio trosglwyddiadau

Trwy gydol y flwyddyn, efallai y cynhaliwn archwiliadau ychwanegol ar ffurflenni trosglwyddo cwota i sicrhau bod y manylion a roddwyd yn gywir. Gall yr archwiliadau gynnwys:

- gofyn am dystiolaeth y cafodd y tir dan sylw ei drosglwyddo mewn gwirionedd,
- cadarnhau nad yw cwota a ddefnyddiwyd wedi cael ei drosglwyddo fel pe bai heb ei ddefnyddio,
- cadarnhau fod eraill a chanddynt fuddiant yn naliad y cynhyrchwr wedi cytuno â'r trosglwyddiad, a
- chadarnhau fod y trosglwyddai yn cynhyrchu llaeth.

Bydd yr archwiliadau'n cael eu gwneud fel arfer cyn newid y gofrestr cwota ond neilltuwn yr hawl i gywiro'r gofrestr os rhoddir gwybodaeth anghywir ar yr hysbysiad trosglwyddo.

## Prosesu eich trosglwyddiad

### Cydnabyddiaeth

Rydym fel arfer yn ceisio cydnabod eich ffurflen trosglwyddiad o fewn 5 diwrnod gwaith i'w derbyn. Ar adegau eithriadol o brysur efallai y bydd peth oedi. Danfonir y llythyr atoch chi neu at eich asiant, os ydych wedi defnyddio un.

Bydd y llythyr cydnabod yn rhoi:

- rhif cyfeirnod sypyn/dogfen - defnyddiwch hwn os oes angen ichi gysylltu â ni am y ffurflen, a
- rhif ffôn ar gyfer cysylltu â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau.

### Amser a gymer i brosesu ffurflenni

Ar ddechrau pob blwyddyn gwota, bydd rhaid inni ofalu y cafodd yr holl symudiadau cwota sy'n gysylltiedig â'r flwyddyn gwota flaenorol eu cwblhau cyn y gallwn ddechrau prosesu'r mewnlif newydd o drosglwyddiadau. O'r herwydd, bydd yn ganol Mehefin cyn y gallwn gadarnhau unrhyw newidiadau yn y flwyddyn newydd.

Ar adegau eraill, anelwn at gadarnhau'r rhan fwyaf o drosglwyddiadau o fewn pedair wythnos i'w derbyn os ydych wedi llenwi'r ffurflen yn gywir, oni bai:

- fod angen rhagor o waith papur arnom,
- y dewisir y trosglwyddiad ar gyfer gwneud archwiliadau goruchwylio, neu
- fod anawsterau gyda'r cwota sy'n cael ei drosglwyddo neu gyda dilysrwydd y trosglwyddiad.

This publication was archived on 31 March 2015

## Holi am gynnydd gyda ffurflen

Os na chafodd eich trosglwyddiad ei gadarnhau o fewn 4 wythnos (ac eithrio ar ddechrau'r flwyddyn gwota) dylech gysylltu â'ch asiant yn y lle cyntaf.

Os na wnaethoch ddefnyddio asiant neu os oes angen ichi gysylltu'n uniongyrchol â ni, byddwch yn barod i roi:

- rhif cyfeirnod sypyn/dogfen eich ffurflen (a gewch gan eich asiant, neu sydd i'w weld ar y llythyr cydnabyddiaeth), a'ch
- rhif cofrestru masnachwr.

Byddwn yn eich ffonio'n ôl cyn gynted ag y gallwn i esbonio unrhyw oedi.

## Llythyrau awdurdod

Rhaid i'r ffurflen gael ei llofnodi gan y trosglwyddydd a'r trosglwyddai. Pan mae'r ffurflen yn cael ei llofnodi gan asiant ar ran y naill barti neu'r llall, bydd angen llythyr awdurdod arnom yn awdurdodi'r asiant i lofnodi ffurflenni trosglwyddo cwota llaeth ar ran y busnes. Rhaid i'r llythyr awdurdod gael ei lofnodi gan bartner, cyfarwyddwr neu swyddog awdurdodedig arall (h.y. rhywun a chanddo'r awdurdod i lofnodi ar ran y busnes).

Rhaid i'r llythyr awdurdod gael ei lofnodi cyn trosglwyddo'r cwota ac fe'i derbynnir ar gyfer un trosglwyddiad yn unig, y mae'n rhaid iddo fod ynghlwm wrtho.

Ni allwch gyfyngu llythyr awdurdod i swm penodol a drosglwyddwyd, gan nad ydym yn gwirio symiau a roddir mewn llythyrau awdurdod. Ni fydd yr Asiantaeth Taliadau Gwledig yn rhoi unrhyw sylw i gyfansymiau, manylion braster menyn na phrisiau y cyfeirir atynt mewn llythyrau awdurdod.

Os ydych yn dymuno diddymu llythyr awdurdod, rhaid ichi wneud hynny'n ysgrifenedig i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig. Ni allwch ddiddymu awdurdod ar gyfer trosglwyddiadau sydd eisoes wedi cael eu danfon at yr Asiantaeth Taliadau Gwledig.

## Trefn prosesu

Mae'r Asiantaeth fel arfer yn prosesu trafodion yn nhrefn eu derbyn, **nid** yn nhrefn dyddiad gweithredol. Wedi dweud hynny, nid oes unrhyw sicrwydd y caiff ffurflen a dderbyniwyd cyn un arall ei chofnodi gyntaf ar y gofrestr cwotâu. Os yw'n bwysig fod trafodion yr ydych yn gysylltiedig â nhw yn cael eu prosesu yn nhrefn **dyddiad gweithredol** e.e. fel bod y canlyniad o ran braster menyn yr hyn roeddech yn ei ddisgwyl, rhaid ichi a/neu eich asiant ofalu:

- fod pob trosglwyddiad neu les sy'n rhan o gyfres hefyd yn cynnwys llythyr eglurhaol yn rhestru'r holl ffurflenni yn y gyfres ac ym mha drefn y dylid eu prosesu, a
- bod y drefn brosesu y gofynnwyd amdani yn adlewyrchu dyddiadau gweithredol y trafodion dan sylw.

Ni allwn addo prosesu cyfres o drafodion yn nhrefn dyddiad gweithredol onid yw'r amodau hyn yn cael eu bodloni. Ni fyddwn yn dadwneud cyfres o drafodion a'u hailbrosesu mewn trefn wahanol os nad ydych wedi cadw at y cyfarwyddiadau uchod.

This publication was archived on 31 March 2015

## Cadarnhau cofrestru'r trosglwyddiad

Byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau:

- ein bod wedi cofnodi'r trosglwyddiad ar y gofrestr cwotâu,
- y newidiadau i'ch cwota a'ch seiliau braster menyn parhaol, parhaus ac i'r dyfodol (os yn berthnasol),
- manylion y cynhyrchwyr a'r prynwyr perthnasol, a'ch
- sefyllfa cwota yn dilyn y trosglwyddiad.

Danfonir cadarnhad atoch hyd yn oed os cyflwynwyd eich ffurflen trwy asiant.

Byddwn yn danfon adroddiad cryno o'r newid cwota at eich prynwr llaeth. Danfonir yr adroddiadau hyn bob wythnos neu bythefnos. Os yw eich prynwr yn aros ichi drosglwyddo neu lesio cwota ychwanegol i mewn cyn rhyddhau taliad a ddaliwyd yn ôl, efallai na chânt wybod gennym ni am hyd at bythefnos. Dylech felly drefnu rhoi gwybod iddynt eich hunan pan gewch eich llythyr cadarnhad oddi wrthym ni.

This publication was archived on 31 March 2015

# Rhan 9

## Lesio cwota

Mae lesio cwota yn gytundeb rhwng cynhyrchwyr i drosglwyddo, dros dro, gwota heb ei ddefnyddio heb dir. Rheoliad y Cyngor 1234/07 Erth. 73

- Hyd y trosglwyddiad dros dro yw'r flwyddyn gwota gyfredol. DPQR, Rheoliad 15
- Aiff y cwota a lesiwyd yn ôl i'w ddeiliad gwreiddiol ar ddechrau'r flwyddyn gwota nesaf.

Mae'r adran hon yn esbonio'r rheolau ar gyfer lesio cwota.

### Trefniadau lesio

- Gellir lesio cwota cyfanwerthu a gwerthiannau uniongyrchol.
- Gellir lesio cwota cyfanwerthu rhwng cynhyrchwyr sy'n cyflenwi'r un prynwyr neu brynwyr gwahanol.
- Ni all deiliaid cwota a roddodd y gorau i gynhyrchu yn y flwyddyn gwota flaenorol lesio eu cwota allan. Rheoliad y Cyngor 1234/07 Erth. 73
- Rhaid i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig gael gwybod am drefniadau lesio erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. DPQR, Rheoliad 15(4)

### Faint o gwota sydd ar gael i'w lesio

Rhaid i gynhyrchwyr sy'n dymuno lesio cwota allan gydymffurfio â'r amodau canlynol. Ni allwch lesio allan:

- eich holl gwota, Rheoliad y Cyngor 1234/07 Erth. 73
- cwota **wedi'i ddefnyddio**, Rheoliad y Cyngor 1234/07 Erth. 73
- cwota yr ydych wedi'i lesio i mewn, neu DPQR, Rheoliad 15(1)
- yn dilyn cyfnewidiad parhaol, unrhyw gwota o'r math yr ydych wedi cyfnewid iddo, yn yr un flwyddyn gwota (oni bai eich bod wedi gwneud cyfnewidiad dros dro o'r un math y flwyddyn gynt). DPQR, Rheoliad 22

Er mwyn gweithio allan faint o gwota cyfanwerthu sy'n weddill gennych i'w lesio allan:

1. Nodwch faint o gwota allai fod yn gymwys i'w lesio, h.y. eich cwota ar ddechrau'r flwyddyn ac unrhyw gwota heb ei ddefnyddio a drosglwyddwyd i mewn. Peidiwch â chynnwys:

- unrhyw gwota wedi'i ddefnyddio a drosglwyddwyd i mewn,
- unrhyw gwota a lesiwyd allan.

2. Cyfrifwch y llaeth a gynhyrchwyd gennych wedi'i addasu ar gyfer braster menyn trwy gymharu cynnwys braster y llaeth yr ydych wedi'i gyflenwi gyda'ch sail braster llaeth parhaus. Dylech gofio, os ydych wedi lesio cwota i mewn yn y gorffennol, y gallai eich sail braster menyn parhaus newid os y lesiwch allan.

This publication was archived on 31 March 2015

3. Tynnwch o'r ffigwr a gawsoch ym mharagraff 2 uchod, gyfanswm y cwota a lesiwyd i mewn. Yna tynnwch y ffigwr sy'n weddill o'r swm a gafwyd ym mharagraff 1 uchod.

4. Y cwota sy'n weddill yn dilyn y cyfrifiad hwn yw faint sydd ar gael ichi i'w lesio allan.

5. Os nad yw'r cwota fel y'i disgrifiwyd bydd yr RPA yn prosesu'r les ar gyfer faint o gwota heb ei ddefnyddio sydd ar gael yn unig.

## Os ydych yn denant

Os ydych yn rhentu eich daliad:

- efallai y bydd rhaid ichi gael cytundeb y person sy'n berchen y tir cyn y gallwch lesio allan eich cwota (*Mae hyn yn dibynnu ar eich cytundeb tenantiaeth neu unrhyw gytundeb cyfreithiol arall gyda nhw),* a
- rhaid ichi roi gwybod iddynt os ydych yn bwriadu lesio eich cwota.

## Cyfyngiadau daearyddol ar lesio

Ni all cynhyrchwyr cyfanwerthu neu werthwyr uniongyrchol mewn Ardal Ynysoedd Yr Alban (h.y. y sawl a chanddynt 50% neu fwy o'u menter laeth yn yr ardaloedd clustnodedig a restrir isod) lesio cwota i mewn nac allan, ac eithrio i gynhyrchwyr cyfanwerthu neu werthwyr uniongyrchol eraill yn yr un Ardal Ynysoedd Yr Alban. DPQR, Rheoliad 16(2)

Yr ardaloedd a glustodwyd y mae'r cyfyngiadau yn berthnasol iddynt yw:

1. Ynys Erch (ac eithrio ynys Stronsay).
2. Ynysoedd Jura, Gigha, Arran, Bute, Great Cumbrae a Little Cumbrae, penrhyn Kintyre i'r de o Tarbert a rhan o benrhyn Cowal.

## Hysbysu'r Asiantaeth Taliadau Gwledig

Mae'n rhaid ichi roi gwybod eich bod yn lesio cwota trwy ddefnyddio:

- Ffurflen MQ/3 *Rhoi gwybod am drosglwyddo cwota llaeth dros dro (les).*

Rhaid i'r ffurflenni gael eu derbyn gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig, ynghyd â'r tâl gweinyddol a nodir ar y ffurflen, erbyn 31 Mawrth (y dyddiad cau ar gyfer lesio). Felly, dylai danfonwyr ystyried defnyddio gwasanaeth danfon sy'n cynnig gwarant y bydd yr eitem a bostiwyd yn cyrraedd. Ni dderbynnir ffurflenni wedi'u ffacsio. DPQR, Rheoliad 15(4)

## Prosesu lesiau

## Cydnabyddiaeth

Rydym fel arfer yn ceisio cydnabod eich ffurflen lesio o fewn 5 diwrnod gwaith i'w derbyn. Ar adegau eithriadol o brysur efallai y bydd peth oedi. Danfonir y llythyr atoch chi neu at eich asiant, os ydych wedi defnyddio un.

Bydd y llythyr cydnabod yn rhoi:

- rhif cyfeirnod sypyn/dogfen - defnyddiwch hwn os oes angen ichi gysylltu â ni am y ffurflen, a'r
- rhif ffôn ar gyfer cysylltu â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau am eich ffurflen.

This publication was archived on 31 March 2015

### Amser a gymer i brosesu ffurflenni

Ar ddechrau pob blwyddyn gwota, bydd rhaid inni ofalu y cafodd yr holl symudiadau cwota sy'n gysylltiedig â'r flwyddyn gwota flaenorol eu cwblhau cyn y gallwn ddechrau prosesu'r mewnlif newydd o lesiau. O'r herwydd, bydd yn ganol Mehefin cyn y gallwn gadarnhau unrhyw newidiadau yn y flwyddyn newydd.

Ar adegau eraill, anelwn at gadarnhau'r rhan fwyaf o lesiau o fewn pedair wythnos i'w derbyn os ydych wedi llenwi'r ffurflen yn gywir, oni bai:

- fod angen rhagor o waith papur arnom, neu
- fod anawsterau gyda'r cwota sy'n cael ei lesio.

### Llythyrau awdurdod

Rhaid i'r ffurflen gael ei llofnodi gan y lesydd a'r lesai. Pan mae'r ffurflen yn cael ei llofnodi gan asiant ar ran y naill barti neu'r llall, bydd angen llythyr awdurdod arnom yn awdurdodi'r asiant i lofnodi ffurflenni lesio cwota llaeth ar ran y busnes. Rhaid i'r llythyr awdurdod gael ei lofnodi gan bartner, cyfarwyddwr neu swyddog awdurdodedig arall (h.y. rhywun a chanddo'r awdurdod i lofnodi ar ran y busnes).

Rhaid i'r llythyr awdurdod gael ei lofnodi cyn lesio'r cwota ac fe'i derbynnir ar gyfer un les yn unig, y mae'n rhaid iddo fod ynghlwm wrtho.

Ni allwch gyfyngu llythyr awdurdod i swm penodol a lesiwyd, gan nad ydym yn gwirio symiau a roddir mewn llythyrau awdurdod. Ni fydd yr Asiantaeth Taliadau Gwledig yn rhoi unrhyw sylw i fanylion braster menyn na phrisiau y cyfeirir atynt mewn llythyrau awdurdod.

Os ydych yn dymuno diddymu llythyr awdurdod, rhaid ichi wneud hynny'n ysgrifenedig i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig. Ni allwch ddiddymu awdurdod ar gyfer lesiau sydd eisoes wedi cael eu danfon at yr Asiantaeth Taliadau Gwledig.

### Trefn prosesu

Mae'r Asiantaeth yn prosesu lesiau yn nhrefn eu derbyn, **nid** yn nhrefn dyddiad gweithredol. Os yw'n bwysig fod trafodion yr ydych yn gysylltiedig â nhw yn cael eu prosesu yn nhrefn **dyddiad gweithredol** e.e. fel bod y canlyniad o ran braster menyn yr hyn roeddech yn ei ddisgwyl, rhaid ichi a/neu eich asiant ofalu:

- fod pob trosglwyddiad neu les sy'n rhan o gyfres hefyd yn cynnwys llythyr eglurhaol yn rhestru'r holl ffurflenni yn y gyfres ac ym mha drefn y dylid eu prosesu, a
- bod y drefn brosesu y gofynnwyd amdani yn adlewyrchu dyddiadau gweithredol y trafodion dan sylw.

Ni allwn addo prosesu cyfres o drafodion yn nhrefn dyddiad gweithredol onid yw'r amodau hyn yn cael eu bodloni.

### Braster menyn

Os ydych yn lesio i mewn gwota cyfanwerthu ag iddo sail braster menyn gwahanol i'ch cwota presennol, eich sail braster menyn parhaus newydd fydd cyfartaledd braster menyn y cwota a lesiwyd i mewn a'ch cwota presennol, gan roi ystyriaeth i gyfansymiau'r naill a'r llall. Wrth ichi lesio allan, bydd braster menyn y cwota sy'n cael ei lesio allan yn cyfateb i'ch sail braster menyn parhaol. Ceir rhagor o fanylion am fraster menyn yn Rhan 10 y Canllaw hwn.

This publication was archived on 31 March 2015

### Holi am gynnydd

Os na chafodd eich les ei gadarnhau o fewn 4 wythnos (ac eithrio ar ddechrau'r flwyddyn gwota) dylech gysylltu â'ch asiant yn y lle cyntaf.

Os na wnaethoch ddefnyddio asiant neu os oes angen ichi gysylltu'n uniongyrchol â ni, byddwch yn barod i roi:

- rhif cyfeirnod sypyn/dogfen eich ffurflen (a gewch gan eich asiant, neu sydd i'w weld ar y llythyr cydnabyddiaeth), a'ch
- rhif cofrestru masnachwr.

Byddwn yn eich ffonio'n ôl cyn gynted ag y gallwn i esbonio unrhyw oedi.

### Cadarnhau cofrestru les

Byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau:

- ein bod wedi cofnodi'r les ar y gofrestr cwotâu,
- y newidiadau i'ch cwota a'ch seiliau braster menyn parhaol, parhaus ac i'r dyfodol (os yn berthnasol),
- manylion y cynhyrchwyr a'r prynwyr perthnasol, a'ch
- sefyllfa cwota yn dilyn y les.

Danfonir cadarnhad atoch hyd yn oed os cyflwynwyd eich ffurflen trwy asiant.

Byddwn yn danfon adroddiad cryno o'r newid cwota at eich prynwr llaeth. Danfonir yr adroddiadau hyn bob wythnos neu bythefnos. Os yw eich prynwr yn aros ichi lesio cwota ychwanegol i mewn cyn rhyddhau taliad a ddaliwyd yn ôl, efallai na chânt wybod gennym ni am hyd at bythefnos. Dylech felly drefnu rhoi gwybod iddynt eich hunan pan gewch eich llythyr cadarnhad oddi wrthym ni.

This publication was archived on 31 March 2015

# Rhan 10

## Braster menyn

### Seiliau braster menyn

Mae gan bob cynhyrchwr a chanddynt gwota cyfanwerthu sail braster menyn ar gyfer y cwota hwn. Dyranwyd seiliau braster menyn i bob cynhyrchwr cyfanwerthu yn 1987/88, yn seiliedig ar gynnwys braster cyfartalog eu llaeth yn 1985/86 (yn 1984/85 ar gyfer rhai):

Rheoliad y Cyngor 1234/07 Erth. 70(1)

### Mathau o sail braster menyn

Mae'r gofrestr cwotâu yn dangos tri sail braster menyn ar gyfer pob cynhyrchwr cyfanwerthu:

- y sail braster menyn **parhaol**,
- y sail braster menyn **parhaus**, a'r
- sail braster menyn **i'r dyfodol**.

### Sail braster menyn parhaol

Mae sail braster menyn parhaol cynhyrchwr yn berthnasol i gwota a ddelir yn barhaol; mae ynghlwm wrth unrhyw gwota cyfanwerthu maen nhw'n ei drosglwyddo neu'n ei lesio allan.

Cyfrifir eich sail braster menyn parhaol ar sail cwota cyfredol a ddelir yn barhaol a gall newid os ydych yn:

- trosglwyddo i mewn yn barhaol gwota cyfanwerthu heb ei ddefnyddio a chanddo sail braster menyn gwahanol, neu
- trosi'n barhaol gwota gwerthiannau uniongyrchol yn gwota cyfanwerthu.

Y diffiniad o **gwota cyfredol a ddelir yn barhaol** yw'r cwota parhaol a ddaliwyd hyd hynny sydd ar gael i'r cynhyrchwr ar gyfer y flwyddyn gwota gyfredol i gynhyrchu ar ei gyfer, i'w drosglwyddo allan neu i'w lesio allan, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau.

### Sail braster menyn parhaus

Sail braster menyn parhaus cynhyrchwr yw'r sail ar gyfer unrhyw flwyddyn benodol.

Cyfrifir eich sail parhaus ar sail eich cwota net a gall newid os ydych yn:

- trosglwyddo i mewn yn barhaol gwota cyfanwerthu heb ei ddefnyddio a chanddo sail braster menyn gwahanol,
- trosglwyddo allan yn barhaol gwota cyfanwerthu heb ei ddefnyddio,
- trosi'n barhaol gwota gwerthiannau uniongyrchol yn gwota cyfanwerthu,
- lesio i mewn gwota cyfanwerthu ag iddo sail braster menyn gwahanol,
- lesio allan gwota cyfanwerthu ar ôl lesio mewn cyn hynny, neu'n
- trosi cwota gwerthiannau uniongyrchol yn gwota cyfanwerthu dros dro.

This publication was archived on 31 March 2015

Y diffiniad o **gwota net** yw'r holl gwota a gofrestrwyd yn eich enw ar unrhyw un adeg; mae hyn yn cynnwys effaith yr holl lesiau i mewn ac allan, trosiadau a symiau a ddefnyddiwyd, yn ogystal â'ch cwota parhaol.

### Sail braster menyn i'r dyfodol

Sail braster menyn parhaus cynhyrchwr yw'r sail fydd yn berthnasol ar y pryd i gwota parhaol y flwyddyn ganlynol. Dyma'r sail ar gyfer cwota a ddelir yn barhaol, gan gynnwys cwota a drosglwyddwyd i mewn wedi'i ddefnyddio. Ar ddechrau pob blwyddyn gwota gosodir eich seiliau braster menyn parhaol a pharhaus yn ôl eich sail braster menyn i'r dyfodol. Bydd eich sail braster menyn i'r dyfodol yn newid os ydych yn:

- trosglwyddo i mewn yn barhaol gwota cyfanwerthu (wedi neu heb ei ddefnyddio) a chanddo sail braster menyn gwahanol, neu'n
- trosi'n barhaol gwota gwerthiannau uniongyrchol yn gwota cyfanwerthu.

Y diffiniad o **gwota parhaol y flwyddyn ganlynol** yw'r cwota fydd ar gael i'r cynhyrchwr ar ddechrau'r flwyddyn gwota newydd. Cedwir cofnod os yw'r cynhyrchwr yn prynu neu'n gwerthu cwota wedi'i ddefnyddio yn y flwyddyn gwota gyfredol. Dangosir hynny ar y llythyr hysbysu.

### Cofnodi i 6 lle degol

Cofnodir sail braster menyn cwota cyfanwerthu ar y gofrestr cwotâu i 6 lle degol. Cyfrifir seiliau braster menyn i 6 lle degol wrth brosesu pob trafodiad cwota ar y gofrestr cwotâu, gan gynnwys:

- trosglwyddiadau parhaol,
- trosglwyddiadau dros dro (lesiau), a
- throsi gwerthiannau uniongyrchol yn gwota cyfanwerthu.

Bydd y sail braster menyn i'r dyfodol 6 lle degol a gedwir ar y gofrestr cwotâu ar ddiwedd y flwyddyn gwota yn cael ei gario drosodd i ddechrau'r flwyddyn gwota nesaf.

### Effaith braster menyn wrth gyfrif y Lefi

Rhaid i brynwyr addasu pob un o'u ffigyrau cyflenwi cyflenwyr er mwyn rhoi ystyriaeth i'w cynnwys braster. Rhaid addasu ffigwr cyflenwi pob cynhyrchwr:

Rheoliad y Cyngor 1234/07, Erth. 80

- i fyny, os yw cynnwys braster llaeth y cynhyrchwr yn uwch na'u sail braster menyn parhaus, neu
- i lawr, os yw'n is.

Defnyddir y ffigyrau cyflenwi wedi'u haddasu ar gyfer braster menyn i gyfrif y lefi.

### Cyfrif cyflenwadau wedi'u haddasu ar gyfer menyn braster

Rhaid i'ch prynwr llaeth gyfrif cynnwys braster menyn cyfartalog eich cyflenwadau cyfanwerthu trwy ddefnyddio'r dull canlynol:

1. Y **cynnwys braster cyfartalog misol** yw cyfartaledd syml (i 2 le degol) y canlyniadau a gafwyd o bob sampl a gymerwyd mewn mis ac a brofwyd ar gyfer braster menyn.

2. Y **cynnwys braster cyfartalog blynyddol** yw cyfartaledd pwysoledig (i 2 le degol) y deuddeg cynnwys braster misol cyfartalog, gan gymryd i ystyriaeth faint a gyflenwyd bob mis.

This publication was archived on 31 March 2015

Ar ddiwedd y flwyddyn gwota, bydd cynnwys braster menyn cyfartalog pwysoledig eich cyflenwadau cyfanwerthu (wedi'i gyflwyno i 2 le degol) yn cael ei gymharu â'ch sail braster menyn parhaus, terfynol (wedi'i dacluso i 2 le degol) er mwyn cyfrif eich ffigwr cyflenwi wedi'i addasu ar gyfer braster menyn.

Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 10

Os yw cynnwys braster eich cyflenwadau yn uwch na'ch sail braster menyn parhaus, bydd eich prynwr yn codi eich ffigwr cyflenwi 0.09% ar gyfer pob 0.01% y mae'r cynnwys braster yn uwch na'ch sail braster menyn parhaus.

Os yw cynnwys braster eich cyflenwadau yn is na'ch sail braster menyn parhaus, bydd eich prynwr yn gostwng eich ffigwr cyflenwi 0.18% ar gyfer pob 0.01% y mae'r cynnwys braster yn brin o'ch sail braster menyn parhaus (hyd at uchafswm gostyngiad o 25% os yw eich sail braster menyn dros 4.50%).

Gan fod cynnwys braster menyn eich cyflenwadau yn cael ei gymharu â'ch sail braster menyn parhaus i 2 le degol, byddwn yn rhoi gwybod i'ch prynwr llaeth beth yw eich sail braster menyn parhaus, wedi'i gyflwyno i 6 a 2 le degol.

Defnyddir eich ffigwr cyflenwi wedi'i addasu ar gyfer braster menyn wrth gyfrif y lefi.

### Sail braster menyn cwota wedi'i drosglwyddo a'i lesio

Mae cwota'n cael ei drosglwyddo neu ei lesio allan ar sail braster menyn parhaol y trosglwyddydd.

### Effaith trosglwyddiadau a lesiau ar sail braster menyn

### Sail braster menyn parhaol

Nid yw sail parhaol y trosglwyddydd yn newid pan mae cwota'n cael ei drosglwyddo allan.

Mae sail parhaol y trosglwyddai yn cael ei ailbwysoli pan gaiff cwota heb ei ddefnyddio ei drosglwyddo i mewn.

Nid yw sail parhaol y trosglwyddai yn newid pan mae cwota wedi'i ddefnyddio'n cael ei drosglwyddo i mewn.

Nid yw seiliau parhaol y trosglwyddydd a'r trosglwyddai yn newid pan mae cwota'n cael ei lesio.

### Sail braster menyn i'r dyfodol

Mae seiliau i'r dyfodol y trosglwyddydd a'r trosglwyddai yn cael eu hailbwysoli pan gaiff cwota wedi neu heb ei ddefnyddio ei drosglwyddo'n barhaol.

Bydd sail i'r dyfodol y trosglwyddydd yn cael ei ailgyfrif i gymryd i ystyriaeth y cwota a drosglwyddwyd allan. Ni fydd sail i'r dyfodol y trosglwyddydd ond yn newid os, cyn y trosglwyddiad allan, yw ei seiliau parhaol ac i'r dyfodol yn wahanol, h.y. os yw yn y gorffennol wedi trosglwyddo i mewn gwota wedi'i ddefnyddio yn ystod y flwyddyn gwota ag iddo sail braster menyn sy'n wahanol i'r hyn a ddyranwyd i'w sail parhaol.

Sail i'r dyfodol y trosglwyddai fydd cyfartaledd pwysoledig ei sail i'r dyfodol presennol a sail y cwota a drosglwyddwyd i mewn, gan gymryd i ystyriaeth gyfanswm y cwota parhaol a ddelir (gan gynnwys cwota wedi'i ddefnyddio a drosglwyddwyd i mewn yn barod yn ystod y flwyddyn gwota) a chyfanswm y cwota a drosglwyddwyd i mewn (gan gynnwys cwota wedi'i ddefnyddio).

This publication was archived on 31 March 2015

Nid yw seiliau i'r dyfodol y lesydd a'r lesai yn newid pan gaiff cwota ei lesio.

### Sail parhaus

Caiff seiliau braster menyn parhaus y trosglwyddydd/lesydd a'r trosglwyddai/lesai eu hailgyfrif pan gaiff cwota ei drosglwyddo neu ei lesio.

Caiff seiliau parhaus y naill barti a'r llall eu hailgyfrif yn gyfartaledd pwysoledig eu sail parhaus presennol a sail y cwota a drosglwyddwyd/lesiwyd, gan gymryd i ystyriaeth eu cwota net presennol a faint o gwota heb ei ddefnyddio sy'n cael ei drosglwyddo/lesio.

Ceir taflenni cyfrif ar gyfer yr holl gyfrifiadau hyn yn Atodiad 6 y Canllaw hwn.

### Sail braster menyn cwota SLOM

Daeth yr holl gyfyngiadau a fu'n berthnasol i gwota SLOM2 i ben erbyn hyn, ac nid yw cwota SLOM mwyach yn cael ei drin ar wahân ar y gofrestr cwotâu.

This publication was archived on 31 March 2015

# Rhan 11

## Trosi cwota

Gall cynhyrchwyr wneud cais i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig i newid (h.y. trosi) o un math o gwota i un arall.

Rheoliad y Cyngor 1234/07, Erth. 67(2)

Gall trosiadau fod yn barhaol neu dros dro.

### Trosi cwota yn barhaol

#### Amodau ar gyfer trosi'n barhaol

Os ydych yn gwneud cais i drosi cwota yn barhaol:

- mae'n rhaid ichi ddefnyddio'r cwota a droswyd ar eich daliad eich hun, ac
- mae'n rhaid fod ei angen oherwydd bod eich gofynion marchnata wedi newid.

e.e. eich bod wedi cynyddu, neu'n bwriadu cynyddu, eich cyflenwadau gwerthiannau uniongyrchol neu gyfanwerthol.

#### Cyfyngiadau yn dilyn trosiad parhaol

Ni allwch lesio allan na throsglwyddo heb dir unrhyw gwota o'r math yr ydych wedi'i drosi o ddyddiad y trosi tan ddechrau'r flwyddyn gwota nesaf.

DPQR, Rheoliad 22

#### Pan nad yw'r cyfyngiad yn berthnasol

Nid yw'r cyfyngiad yn berthnasol i gynhyrchwr llaeth sy'n gwneud cais i drosi cwota yn barhaol yn y flwyddyn gwota yn dilyn y flwyddyn y caniatawyd iddo drosi dros dro gwota o'r un math ynddi.

DPQR, Rheoliad 22(6)

#### Rhyddhad o'r cyfyngiadau

O dan amgylchiadau eithriadol gellir rhyddhau cynhyrchwr o'r cyfyngiadau a osodwyd yn dilyn trosiad parhaol os cafodd eu busnes ei effeithio gan newid, na ellid fod wedi'i osgoi na'i ragweld adeg y trosi, ac sydd wedi cael effaith arwyddocaol ar faint o laeth mae'n ei gynhyrchu neu ar ei allu i gyflawni unrhyw gynnydd a fwriadwyd yn faint o laeth mae'n ei gynhyrchu. Ymhlith yr enghreifftiau o amgylchiadau eithriadol allai gyfiawnhau rhyddhau cynhyrchwr o'r cyfyngiadau mae:

DPQR, Rheoliad 22(3)

- marwolaeth cynhyrchwr,
- anallu'r cynhyrchwr i gynnal ei fusnes dros gyfnod estynedig oherwydd dyfodiad afiechyd, anaf neu anabledd,
- trychineb naturiol a gafodd effaith ddifrifol ar y daliad,
- dinistr damweiniol adeiladau a ddefnyddiwyd ar gyfer cynhyrchu llaeth,
- salwch neu haint sy'n cael effaith ddifrifol ar y fuches laeth,
- cyflwyno rhybudd neu wneud datganiad o dan orchymyn a wnaed o dan adran 17 Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (ym Mhrydain Fawr),
- gwneud datganiad o dan orchymyn a wnaed o dan erthygl 12(1) Gorchymyn Heintiau Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon) 1981 (yng Ngogledd Iwerddon),

This publication was archived on 31 March 2015

- mabwysiadu gorchymyn brys o dan adran 1 Deddf Bwyd a Diogelu'r Amgylchedd 1985,
- colli cyfran sylweddol o'r ardal porthiant oherwydd pryniant gorfodol ar y daliad neu ran o'r daliad, neu
- gyflwyno rhybudd i adael na ellir ei herio o fewn unrhyw achos a nodwyd yn rhan I Atodlen 3 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.

### Sail braster menyn cwota a droswyd yn barhaol

Byddwn fel arfer yn dyrannu sail braster menyn o 3.8% pan mae cwota gwerthiannau uniongyrchol yn cael ei drosi'n barhaol yn gwota cyfanwerthu. Os bodlonwch rai meini prawf, gallwch wneud cais am eich sail braster menyn presennol ar gyfer y cwota rydych wedi'i drosi. Ceir manylion ar ddiwedd yr adran hon. Rheoliad y Comisiwn 595/04 Erth. 7(2)

Eich sail braster menyn <u>parhaol</u> newydd fydd cyfartaledd:

- y sail a ddyranwyd i'r cwota a droswyd, ac
- eich sail braster menyn <u>parhaol</u> ar ddyddiad gweithredol y trosiad,

gan gymryd i ystyriaeth symiau'r naill a'r llall.

### Pryd i ddanfon eich cais

Mae'n rhaid ichi wneud cais inni drosi cwota cyfanwerthu neu werthiannau uniongyrchol trwy ddefnyddio ffurflen MQ/6

Rhaid cyflwyno eich cais man pellaf erbyn 31 Rhagfyr yn y flwyddyn gwota dan sylw. DPQR, Rheoliad 21(3)(a)

### Cydnabyddiaeth

Rydym fel arfer yn cydnabod eich ffurflen trosiad o fewn 5 diwrnod gwaith i'w derbyn. Ar adegau eithriadol o brysur efallai y bydd peth oedi. Danfonir y llythyr atoch chi neu at eich asiant, os ydych wedi defnyddio un.

Bydd y llythyr cydnabod yn rhoi:

- rhif cyfeirnod sypyn/dogfen - defnyddiwch hwn os oes angen ichi gysylltu â ni am y ffurflen, a'r
- rhif ffôn ar gyfer cysylltu â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau am eich ffurflen.

### Yr uchafswm cwota y gellir ei drosi'n barhaol

Yr uchafswm y gallwch ei drosi'n barhaol yw cyfanswm eich cwota parhaol heb ei ddefnyddio ar ddyddiad gweithredol y trosiad.

Ni allwch drosi'n barhaol gwota yr ydych wedi:

- ei lesio i mewn,
- ei lesio allan,
- cynhyrchu ar ei gyfer yn barod.

## Cadarnhad gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig

Ysgrifennwn atoch i roi gwybod ichi pan gafodd eich cais trosi ei brosesu. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod ichi pa sail braster menyn a ddyranwyd i'r cwota a droswyd.

This publication was archived on 31 March 2015

## Cadw eich sail braster menyn presennol (parhaol)

Gallwch wneud cais ar ffurflen MQ/6 i gael eich cwota wedi'i drosi ar eich sail braster menyn presennol. Gallwn ddyrannu eich sail braster menyn presennol i'r cwota a droswyd os ydych yn bodloni'r amodau a restrir isod:

- mae gennych gwota cyfanwerthu a gwerthiannau uniongyrchol ar y pryd,
- rydych yn gynhyrchwr cyfanwerthu gweithredol neu rydych yn dychwelyd at gynhyrchu cyfanwerthu ar ôl ceisio a methu gyda gwerthiannau uniongyrchol,
- rydych wedi cynhyrchu ar gyfer y ddau fath o gwota am o leiaf 12 mis (o leiaf 80% wedi'i gynhyrchu os cafodd y cwota rydych yn gwneud cais i'w drosi ei drosglwyddo yn hytrach na'i ddyrannu gan y Gweinidog),
- rydych yn trosi cwota gwerthiannau uniongyrchol oedd yn eich meddiant ar 1 Ebrill 1994,
- rydych wedi cynhyrchu ar gyfer unrhyw gwota gwerthiannau uniongyrchol rydych yn ei drosi, a drosglwyddwyd i mewn er 1 Ebrill 1994, ac
- nid ydych wedi trosglwyddo cwota i mewn nac allan a/neu gwota wedi'i drosi er mwyn cael mantais annheg o'r rheolau trosi.

Caiff eich cais ei ystyried ar sail yr amodau hyn a'ch amgylchiadau unigol, er mwyn penderfynu a yw dyraniad eich sail braster menyn presennol yn dderbyniol.

Os nad ydych yn hapus â'r sail braster menyn a gynigir ichi, gallwch dynnu'r cais yn ôl.

## Trosi cwota dros dro

### Amodau ar gyfer trosi dros dro

- Mae trosiad dros dro yn bodoli am un flwyddyn gwota yn unig.
- Gallwch drosi dros dro gwota yr ydych wedi'i lesio i mewn.
- Ni allwch drosi dros dro gwota yr ydych wedi'i lesio allan neu gynhyrchu ar ei gyfer.
- Mae'n rhaid bod angen trosiad dros dro oherwydd eich bod naill ai wedi gwneud cyflenwadau cyfanwerthu neu werthiannau uniongyrchol sy'n fwy na'ch cwota.
- Swm y cwota y gallwch wneud cais i'w drosi dros dro yw'r swm rydych ei angen i osod yn erbyn eich gor gyflenwadau neu werthiannau uniongyrchol.

### Sut i wneud cais i drosi cwota dros dro

- Rhaid gwneud cais i drosi cwota dros dro ar ddiwedd y flwyddyn gwota y mae angen y trosiad dros dro ynddi.
- Ni allwn drosi eich cwota dros dro yn awtomatig ar eich cyfer. Mae'n rhaid ichi wneud cais inni ar ffurflen MQ/15 *Datganiad blynyddol o werthiannau uniongyrchol a chais i drosi dros dro.*
- Os nad ydych yn siwr a oes angen ichi wneud cais am drosiad dros dro, rydym yn argymell eich bod yn gwneud cais. Byddwn yn asesu eich cais ac ni fyddwn ond yn ei brosesu os oes gennych gwota dros ben i'w drosi dros dro ac os oes angen trosiad dros dro arnoch.
- Os oes gennych gwota gwerthiannau uniongyrchol, danfonir ffurflen MQ/15 atoch yn y pecyn gwerthiannau uniongyrchol a ddanfonwn allan ar ôl diwedd y flwyddyn gwota. Os ydych eisiau gwneud cais am drosiad dros dro ond nad oes gennych gwota gwerthiannau uniongyrchol, ffoniwch y Llinell Gymorth (Atodiad 1 y Canllaw hwn) a gofynnwch inni ddanfon ffurflen atoch.

This publication was archived on 31 March 2015

- Rhaid ichi gyflwyno eich cais inni cyn 15 Mai h.y. erbyn 14 Mai. Os cyflwynir eich cais inni ar neu wedi 15 Mai, ni chaiff ei brosesu.
- Os nad ydych wedi derbyn ffurflen erbyn diwedd Ebrill, ffoniwch y Llinell Gymorth (Atodiad 1 y Canllaw hwn) a gofynnwch inni ddanfon ffurflen atoch.

## Sail braster menyn cwota a droswyd dros dro

Rheoliad y Comisiwn 595/04 Erth. 7(2)

Byddwn fel arfer yn dyrannu sail braster menyn o 3.8% pan mae cwota gwerthiannau uniongyrchol yn cael ei drosi dros dro yn gwota cyfanwerthu. Os bodlonwch rai meini prawf, gallwch wneud cais am sail braster menyn uwch ar gyfer y cwota rydych wedi'i drosi. Ceir manylion o dan 'Cadw eich sail braster menyn presennol (parhaus)'.

Eich sail braster menyn parhaus newydd fydd cyfartaledd:

- y sail a ddyranwyd i'r cwota a droswyd, ac
- eich sail braster menyn parhaus ar ôl i'r holl symudiadau cwota am y flwyddyn gael eu prosesu

gan gymryd i ystyriaeth symiau'r naill a'r llall.

## Cadw eich sail braster menyn presennol (parhaus)

Gallwch wneud cais i gael eich cwota wedi'i drosi dros dro ar eich sail braster menyn presennol (parhaus). Gallwn ddyrannu eich sail braster menyn presennol (parhaus) i'r cwota a droswyd dros dro os ydych yn bodloni'r amodau a restrir isod:

- rydych yn gynhyrchwr cyfanwerthu gweithredol,
- mae gennych y ddau fath o gwota h.y, cyfanwerthu a gwerthiannau uniongyrchol,
- rydych wedi cynhyrchu ar gyfer y ddau fath o gwota neu wedi rhoi'r gorau i wneud gwerthiannau uniongyrchol ac yn dychwelyd at gyflenwadau cyfanwerthu,
- rydych yn trosi cwota gwerthiannau uniongyrchol oedd yn eich meddiant ar 1 Ebrill 1994.
- os ydych wedi trosglwyddo cwota ers 1994, bydd sail braster menyn unrhyw gwota a droswyd dros dro yn dibynnu ar faint o'r cwota a drosglwyddwyd a ddefnyddiwyd ar gyfer gwerthiannau uniongyrchol,
- nid ydych wedi trosglwyddo cwota i mewn nac allan a/neu gwota wedi'i drosi er mwyn cael mantais annheg o'r rheolau.

## Cadarnhad gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig

Os caiff eich cais ei brosesu, ysgrifennwn atoch i roi gwybod ichi:

- Am y math o gwota a droswyd dros dro.
- Faint o gwota a droswyd dros dro.
- Sail braster menyn y cwota a droswyd dros dro, os yw'r trosiad i gwota cyfanwerthu.

Danfonwn adroddiad cryno o'r newid mewn cwota at eich prynwr llaeth.

Os na chaiff eich cais ei brosesu, ysgrifennwn atoch i roi gwybod ichi pam na chafodd y trosiad dros dro ei brosesu.

This publication was archived on 31 March 2015

# Rhan 12

## Ailddyrannu cwota dros dro yn dilyn cyfyngiadau ar symud buchesi

This publication was archived on 31 March 2015

O dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, Gorchymyn Heintiau Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon) 1981 a Deddf Bwyd a Diogelu'r Amgylchedd 1985, gellir cyflwyno rhybudd ffurfiol i wahardd symud da byw o ddaliad cynhyrchwr.

Os cawsoch rybudd yn cyfyngu symud buchesi gallwch:

- barhau i gyflenwi llaeth a marchnata cynnyrch llaeth,
- ond symud da byw oddi ar y fferm os yw anifeiliaid yn mynd yn syth i gael eu lladd, ac
- ni allwch symud na gwerthu unrhyw dda byw, ac eithrio fel y nodwyd uchod, gan gynnwys aneiri cyflo.

Oherwydd y cyfyngiadau hyn, gall cynhyrchwyr a effeithir fynd dros eu cwota. Mewn amgylchiadau fel hyn, gall cynhyrchwr wneud cais am driniaeth blaenoriaeth pan mae cwota heb ei ddefnyddio yn cael ei ailddyrannu ar ddiwedd y flwyddyn gwota.

Gan na fydd faint o gwota a ddyfernir yn y pendraw yn gwneud yn iawn yn llawn am ddiffyg unigolyn, awgrymir yn gryf fod cynhyrchwyr a effeithir gan gyfyngiad ar symud buchesi yn gwneud popeth allant yn ystod y flwyddyn gwota i osgoi lefi ar ddiwedd y flwyddyn gwota.

### Cymhwyster ar gyfer ailddyraniad yn ôl blaenoriaeth

Gallwch wneud cais am ailddyraniad yn ôl blaenoriaeth o gwota heb ei ddefnyddio os ydych wedi mynd dros eich cwota oherwydd yr effeithiwyd eich daliad gan: DPQR, Rheoliad 19

- gyfyngiad ffurfiol ar symud buchesi, neu
- orchymyn brys yn ystod y flwyddyn gwota.

Er mwyn gwneud cais, mae'n rhaid ichi brofi hefyd:

- eich bod wedi mynd dros eich cwota, a'ch
- bod wedi cadw aneiri lloi cyntaf sydd dros 20% o nifer yr anifeiliaid yn eich buches ar ddiwrnod cyntaf y cyfyngiad ar symud.

Fodd bynnag, ni fyddwch fel arfer yn gymwys i gael dyraniad os:

- wnaethoch lesio cwota allan rhwng dechrau'r cyfyngiad a diwedd y flwyddyn gwota,
- wnaethoch drosglwyddo allan gwota heb ei ddefnyddio rhwng dechrau'r cyfyngiad ar symud a diwedd y flwyddyn gwota, neu
- os wnaethoch brynu unrhyw wartheg neu aneiri cyflo rhwng dechrau'r cyfyngiad ar symud a diwedd y flwyddyn gwota,

*oni bai* y gallwch ddangos tystiolaeth foddhaol fod contract gennych yn barod i wneud hynny cyn i'r cyfyngiad gael ei gyflwyno.

## Sut i wneud cais am ailddyraniad yn ôl blaenoriaeth

Mae'n rhaid ichi ddefnyddio ffurflen gais MQ/16 *Gwneud cais am ailddyraniad cwota dros dro: cyfyngiadau ar symud buchesi*, sydd ar gael oddi wrth yr Asiantaeth Taliadau Gwledig neu, ar gyfer Gogledd Iwerddon, yr Adran Amaeth a Datblygu Gwledig (DARD).

DPQR, Rheoliad 19(6)

Ceir cyfeiriadau yn Atodiad 2.

Gellir gofyn i'r RPA am y ffurflenni hyn ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn gwota, ond ni chânt eu danfon tan ar ôl diwedd y flwyddyn gwota y mae'r cais yn gysylltiedig â hi. Rhaid ichi lenwi a chyflwyno eich ffurflen MQ/16 i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig, neu DARD, i gyrraedd erbyn **30 Ebrill** wedi diwedd y flwyddyn gwota y mae'r cais yn gysylltiedig â hi. Caiff ceisiadau hwyr eu gwrthod. Cewch wybod a fu eich cais yn llwyddiannus. Fodd bynnag, oherwydd cymhlethdodau cyfrif y lefi, ni ellir cadarnhau cymhwyster ar gyfer derbyn cwota ac i bwy y'i dyranwyd tan y mis Gorffennaf yn dilyn y flwyddyn gwota y mae'r cais yn gysylltiedig â hi.

## Faint o gwota sydd ar gael i'w ailddyrannu

Bydd faint a ailddyrennir ichi yn dibynnu ar faint o gwota heb ei ddefnyddio sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn gwota. Efallai na chewch ddigon o gwota i wneud yn iawn am eich holl or gynhyrchu.

Efallai na chewch unrhyw gwota ychwanegol o gwbl. Os digwydd hynny, efallai y bydd rhaid ichi dalu lefi ar bob litr o or gynhyrchu. Rydym felly'n cynghori cynhyrchwyr yn gryf i wneud popeth allant yn ystod y flwyddyn gwota i ddarparu ar gyfer eu gor gynhyrchu.

Yr uchafswm y gallwn ei ddyrannu ichi yw 16 litr y dydd ar gyfer pob anifail cymwys y mae'r cyfyngiad yn berthnasol iddo.

Ni allwn ailddyrannu mwy na'r gormodedd y gwnaethoch chi'i gynhyrchu,

## Sut mae cwota'n cael ei ddarparu ar gyfer ei ailddyrannu

Ar gyfer cynhyrchwyr cyfanwerthu a gwerthwyr uniongyrchol, bydd cwota heb ei ddefnyddio sydd ar gael ar y lefel genedlaethol yn cael ei ailddyrannu yn ôl argaeledd ac angen.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am ailddyraniad cynllun cwota yn ôl blaenoriaeth, cysylltwch â'r Llinell Gymorth Cwotâu Llaeth ar 01392 315763

This publication was archived on 31 March 2015

# Rhan 13

## Cyfrif a thalu lefi

Ni fydd lefi cyfanwerthu yn daladwy **ond** pan mae cyfanswm y cyflenwadau ar gyfer y Deyrnas Unedig yn gyffredinol yn uwch na'r Cwota Cyfanwerthu cenedlaethol.

Ni fydd lefi gwerthiannau uniongyrchol yn daladwy **ond** pan mae cyfanswm y gwerthiannau uniongyrchol ar gyfer y Deyrnas Unedig yn gyffredinol yn uwch na'r Cwota Gwerthiannau Uniongyrchol cenedlaethol.

Gosodir cyfradd y lefi yn rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd ac fe'i trosir i sterling ar y gyfradd trosi ewro/sterling sy'n weithredol ar 31 Mawrth. Ceir manylion am gyfraddau lefi yn Atodiad 4.

Rheoliad y Cyngor 1234/07, Erth. 78(1)

Gallwch gysylltu â'r Llinell Gymorth (Atodiad 1 y Canllaw hwn) i gael enghreifftiau o'r cyfraddau dros y blynyddoedd diwethaf.

### Beth mae'r Asiantaeth Taliadau Gwledig yn ei wneud

Rydym yn gyfrifol am:

DPQR, Rheoliadau 25-31

- ddyrannu cwota cyfanwerthu heb ei ddefnyddio i gynhyrchwyr sydd â hawl i gael dyraniad dros dro (yn ôl blaenoriaeth),
- dyrannu cwota cyfanwerthu heb ei ddefnyddio i gynhyrchwyr y mae eu cyflenwadau i brynwr yn uwch na'r cwota y mae'r cynhyrchwr wedi'i gofrestru gyda'r prynwr hwnnw,
- asesu a oes lefi yn daladwy,
- cyfrif y lefi,
- danfon biliau at werthwyr uniongyrchol a phrynwyr ac, o dan rai amgylchiadau, at gynhyrchwyr cyfanwerthol,
- casglu'r lefi, a
- thalu'r lefi i'r Comisiwn Ewropeaidd.

### Lefi Cyfanwerthu

Efallai y bydd rhaid i gynhyrchwr dalu lefi os yw cyfanswm y llaeth a gyflenwyd i'w gynhyrchwr (wedi'i addasu ar gyfer braster menyn) yn uwch na'r cwota y mae wedi'i gofrestru gyda'r cynhyrchwr hwnnw. Cyfrifir y lefi ar lefel cynhyrchwr ar gyfer pob cynhyrchwr o fewn grŵp cynhyrchwyr ac mae'n seiliedig ar gyfanswm y llaeth wedi'i addasu ar gyfer braster menyn a gyflenwyd. Yna cyfrifir cyfanswm y lefi sy'n daladwy gan y grŵp cynhyrchwyr a danfonir y bil lefi cyfanwerthu at y prynwr. Maen nhw wedyn yn gorfod casglu'r lefi oddi wrth y cynhyrchwyr hynny a gyfrannodd at y gor gynhyrchu.

Rheoliad y Cyngor 1234/07, Erth. 79

### Ailddyrannu cwota heb ei ddefnyddio ar lefel genedlaethol

Nid yw ailddyrannu cwota heb ei ddefnyddio yn digwydd mwyach ar lefel y prynwr. Er blwyddyn gwota 2004/05, cafodd yr ailddyrannu ei wneud ar lefel genedlaethol, sy'n golygu fod gan bob cynhyrchwr cyfanwerthu yr un lefel canrannol o drothwy.

This publication was archived on 31 March 2015

### Sut mae'r cwota'n cael ei rannu

Byddwn yn cymharu cyflenwadau pob cynhyrchwr i bob un o'u prynwyr gyda'r cwota y maen nhw wedi'i gofrestru gyda'r prynwr hwnnw. Yna byddwn yn:

- ychwanegu unrhyw gwota heb ei ddefnyddio at y Gronfa Wrth Gefn Genedlaethol,
- dyrannu cwota i gynhyrchwyr sy'n gymwys i gael ailddyraniad yn ôl blaenoriaeth, ac yn
- dosbarthu'r cwota heb ei ddefnyddio sy'n weddill i gynhyrchwyr y mae eu cyflenwadau i brynwr yn uwch na'r cwota y maen nhw wedi'i gofrestru gyda'r prynwr hwnnw.

Wrth inni rannu cwota heb ei ddefnyddio a chwota o'r Gronfa Wrth Gefn Genedlaethol, byddwn yn ei rannu ymhlith y cyfuniadau cynhyrchwr/prynwr hynny sydd angen cwota ychwanegol yn gymesur â swm eu cwota cofrestredig net.

Wedi inni ddosbarthu cwota heb ei ddefnyddio yn y modd yma, bydd rhaid i'r prynwr dalu lefi ar unrhyw laeth a gyflenwyd sy'n dal yn uwch na chyfanswm ei gwota, a chasglu'r lefi hwnnw oddi wrth y cynhyrchwyr dan sylw.

## Cadw taliadau'n ôl oddi wrth gynhyrchwyr

Os yw cynhyrchwr wedi mynd dros y cwota maen nhw wedi'i gofrestru gyda phrynwr, gall y prynwr ddal taliad yn ôl ar gyfer unrhyw gyflenwadau ychwanegol. Rheoliad y Cyngor Erth. 11(3)

Ni all y swm y gall prynwr ei ddal yn ôl fod yn fwy nac uchafswm posib y lefi taladwy ar y llaeth a or gynhyrchwyd.

## Casglu'r lefi

Rheoliad y Comisiwn 595/04 Erth. 13(1)

Byddwn yn danfon anfoneb at y prynwr am gyfanswm y lefi y mae'n rhaid iddo'i dalu. DPQR, Rheoliad 29

Rhaid i brynwyr wneud eu trefniadau eu hunain i gasglu'r swm priodol oddi wrth bob cynhyrchwr sydd wedi mynd dros ei gwota.

Os nad yw'r prynwr yn casglu'r lefi oddi wrth y cynhyrchwyr ac os yw'n methu ei dalu i'r RPA, cymerwn gamau i hawlio'r lefi sy'n daladwy oddi wrth y cynhyrchwyr.

## Talu'r lefi

Rhaid i brynwyr dalu'r lefi cyn 1 Hydref bob blwyddyn. Codwn log os yw'r taliad yn hwyr. Rheoliad y Comisiwn 595/04 Erth. 15(1)

Y gyfradd llog fydd un y cant yn fwy na'r gyfradd sterling tri mis rhyng-fanciol Llundain a gynigir (LIBOR). DPQR, Rheoliad 31(6)

# Lefi Gwerthiannau Uniongyrchol

Efallai y bydd rhaid i gynhyrchwyr sy'n marchnata rhywfaint o laeth a/neu gynnyrch llaeth arall yn uniongyrchol i'w hyfed/bwyta sydd dros eu cwota gwerthiannau uniongyrchol dalu lefi. Rheoliad y Cyngor 1234/07, Erth. 79

Ni fydd lefi gwerthiannau uniongyrchol yn daladwy **ond** pan mae cyfanswm y gwerthiannau uniongyrchol ar gyfer y Deyrnas Unedig yn gyffredinol yn uwch na chyfanswm y cwota gwerthiannau uniongyrchol.

This publication was archived on 31 March 2015

## Cyfradd wanhaedig y lefi

Cyfrifir cyfanswm y lefi gwerthiannau uniongyrchol ar gyfer y Deyrnas Unedig trwy ddefnyddio'r un lefi a godir ar gyflenwadau cyfanwerthu. Fodd bynnag, er mwyn caniatáu i gynhyrchwyr sydd dros gwota elwa o'r holl gwota heb ei ddefnyddio sydd ar gael, codir lefi arnynt ar y gyfradd 'wanhaedig'. Bydd i ba raddau y caiff y gyfradd ei lleihau yn dibynnu felly ar faint o gwota dros ben sydd ar gael.

DPQR, Rheoliad 30

## Cyfrif lefi gwerthiannau uniongyrchol

Mae dwy gyfradd o lefi:

- cyfradd is neu 'wanhaedig' ar gyfer cynhyrchwyr y derbynnir eu datganiadau mewn pryd a
- chyfradd lawn ar gyfer unrhyw un y cyflwynir eu datganiadau ar ôl 14 Mai neu ar gyfer unrhyw werthiannau uniongyrchol na chynhwyswyd mohonynt yn y datganiad.

## Cyfrif cyfradd wanhaedig y lefi

Cyfrifir y gyfradd wanhaedig trwy ddefnyddio'r dull canlynol:

1. Cesglir datganiadau gwerthiannau uniongyrchol ar gyfer y Deyrnas Unedig erbyn y dyddiad cau sef 14 Mai.
2. Mae cyfanswm y gwerthiannau uniongyrchol ar y datganiadau yn cael eu hychwanegu at ei gilydd.
3. Mae cyfanswm y cwota gwerthiannau uniongyrchol (gan gynnwys unrhyw drosiadau dros dro) a ddyranwyd i'r cynhyrchwyr hynny sydd wedi danfon eu datganiadau blynyddol erbyn y dyddiad cau yn cael eu cyfrif.
4. Gwneir unrhyw ddyfarniadau i gynhyrchwyr sy'n gymwys i dderbyn ailddyraniadau dros dro wedi cyfyngiadau ar symud buchesi.
5. Mae lefel gwerthiannau uniongyrchol yn (2) yn cael ei chymharu gyda lefel cwota gwerthiannau uniongyrchol ar ôl i (4) gael ei weithredu.
6. Os oes mwy o gwota nac o werthiannau, nid oes unrhyw lefi yn daladwy ar gyfer unrhyw werthwr uniongyrchol a gynhwyswyd yn y cyfrifiad.
7. Os yw gwerthiannau uniongyrchol yn uwch na'r cwota, fe godir lefi ar bob cynhyrchwr sydd dros eu cwota.
8. Mae maint y gwerthiannau uniongyrchol yn y Deyrnas Unedig sy'n uwch na'r cwota gwerthiannau uniongyrchol yn cael ei luosi gyda chyfradd lawn y lefi i roi cyfanswm bil lefi gwerthiannau uniongyrchol y Deyrnas Unedig.
9. Mae datganiadau y cynhyrchwyr hynny oedd dros eu cwota yn cael eu gwahanu ac mae cyfanswm eu gor gynhyrchu yn cael ei gyfrif.
10. Mae lefel y gor gynhyrchu yn (9) yn cael ei rannu i mewn i gyfanswm bil lefi gwerthiannau uniongyrchol y Deyrnas Unedig i roi cyfradd wanhaedig y lefi.
11. Mae'r cynhyrchwyr a nodwyd yn (10) yn cael lefi ar y gyfradd wanhaedig.
12. Mae pob cynhyrchwr na chafodd eu datganiadau eu cynnwys yn y cyfrifiad lefi yn cael lefi ar eu gor gynhyrchu ar gyfradd lawn y lefi, ac felly hefyd gynhyrchwyr sydd wedi methu datgan eu holl werthiannau yn eu datganiad blynyddol.

This publication was archived on 31 March 2015

## Casglu'r lefi gwerthiannau uniongyrchol

Os oes angen ichi dalu lefi gwerthiannau uniongyrchol, danfonwn anfoneb atoch.

## Talu'r lefi

Wedi i'r lefi gael ei gyfrif, bydd unrhyw anfonebau a ddanfonir ar gyfer lefi yn daladwy cyn 1 Hydref. Codir llog ar daliadau a dderbynnir ar neu wedi 1 Hydref.

Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 15(1)

Pan welir ymhen hir a hwyr fod cynhyrchwyr wedi cyflwyno datganiad blynyddol anghywir a bod lefi yn daladwy ar werthiannau uniongyrchol na ddatganwyd mohonynt, caiff llog ei ôl-ddyddio i 1 Hydref y flwyddyn yr oedd y lefi yn daladwy ynddi.

Y gyfradd llog fydd un y cant yn fwy na'r cyfradd sterling tri mis rhyng-fanciol Llundain a gynigir (LIBOR).

DPQR, Rheoliad 31(6)

This publication was archived on 31 March 2015

# Rhan 14

## Atalfaelu ac adfer cwota

Os nad yw cynhyrchwr yn cydymffurfio â'r rheolau sy'n berthnasol i'w dyraniad cwota, efallai y byddwn yn atalfaelu'r cwota hwnnw,

Byddwn yn rhoi'r cwota a atalfaelwyd yn y Gronfa Wrth Gefn Genedlaethol ac yn danfon Hysbysiad Atalfaelu yn rhoi gwybod ichi am yr hyn a wnaethom.

Rheoliad y Cyngor 1234/07, Erth.72

Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle y mae'r cynhyrchwr:

- wedi cael y cwota trwy dwyll,
- wedi methu danfon ei ffurflen datganiad marchnata gwerthiannau uniongyrchol blynyddol mewn pryd, neu (Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth.11(4))
- os nad yw wedi cynhyrchu ar gyfer ei gwota yn ystod blwyddyn gwota. (Rheoliad y Cyngor 1234/07, Erth.72(1))

Mae'r adran hon yn nodi'r rheolau ar gyfer atalfaelu cwota.

### Twyll

Efallai y byddwn yn atalfaelu eich cwota os gwelwn eich bod wedi'i gael trwy dwyll. Er enghraifft, os:

DPQR, Rheoliad 40(3)

- gwnaed datganiad ffug er mwyn ei gael, neu
- os defnyddiwyd dogfen i gefnogi cais y gwelwyd ei bod yn cynnwys gwybodaeth ffug neu ddatganiad ffug.

### Danfon datganiadau gwerthiannau uniongyrchol

Mae'n rhaid ichi wneud datganiad o'ch gwerthiannau uniongyrchol a rhaid ei gyflwyno cyn 14 Mai bob blwyddyn.

Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth.11(2)

#### Os na ddanfonwch ddatganiad blynyddol

Rhoddwn 15 diwrnod o rybudd ichi o'n bwriad i atalfaelu (os na chyflwynwch eich datganiad erbyn 15 Mehefin).

Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth.11(4)

Os nad ydym wedi derbyn eich datganiad ar ôl y 15 diwrnod o rybudd, byddwn yn atalfaelu eich cwota gwerthiannau uniongyrchol o ddechrau'r flwyddyn gwota yn dilyn y flwyddyn y dylai'r datganiad fod wedi cael ei gyflwyno ar ei chyfer. Byddwn yn danfon Hysbysiad Atalfaelu yn rhoi gwybod ichi am yr hyn a wnaethom.

Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth.11(4)

DPQR, Rheoliad 38(2)

### Peidio cynhyrchu ar gyfer cwota

Byddwn yn atalfaelu eich cwota cyfan os methwch gynhyrchu ar gyfer unrhyw ran o'ch cwota cyfanwerthu neu werthiannau uniongyrchol yn ystod y flwyddyn gwota flaenorol.

Rheoliad y Cyngor 1234/07, Erth.72(1)

DPQR, Rheoliad 38(1)

Os ydych wedi trosglwyddo'n barhaol neu lesio cwota oddi ar eich daliad yn ystod y flwyddyn gwota, neu os ydych wedi prynu cwota wedi'i ddefnyddio, bydd eich cwota yn dal yn agored i gael ei atalfaelu os nad ydych chi eich hun wedi cynhyrchu ar ei gyfer.

This publication was archived on 31 March 2015

Daw'r atalfaelu'n weithredol ar 1 Ebrill y flwyddyn gwota yn dilyn y flwyddyn y bu ichi fethu cynhyrchu ar gyfer eich cwota. Os oes gennych gwota cyfanwerthu, yn ogystal â rhoi gwybod ichi, byddwn hefyd yn rhoi gwybod i'ch prynwr llaeth am yr atalfaeliad.

## Adfer cwota

Os atalfaelwyd eich cwota oherwydd na wnaethoch gynhyrchu ar ei gyfer, gellir adfer y cwota oedd gennych os ydych chi neu rywun arall sydd maes o law yn dod yn feddiannydd eich daliad yn ailgychwyn cynhyrchu llaeth ar y tir yr oedd y cwota ynghlwm wrtho. Rhaid i geisiadau i adfer gael eu gwneud gan gynhyrchwr o fewn 2 flynedd i ddechrau'r flwyddyn gwota yr atalfaelwyd y cwota ynddi a chaiff y cwota ei adfer i'r cynhyrchwr llaeth sy'n dychwelyd y tir at gynhyrchu llaeth. Os atalfaelwyd eich cwota gwerthiannau uniongyrchol oherwydd na wnaethoch ddanfon eich datganiad mewn pryd, gellir ei adfer o ddechrau'r flwyddyn gwota yn dilyn y flwyddyn gwota y derbynnir y datganiad perthnasol gennym ni.

Rheoliad y Cyngor 1234/07, Erth.72(1)

DPQR, Rheoliad 39(2)

### Pryd i wneud cais i gael cwota wedi'i adfer

Mae'n rhaid ichi, neu feddiannydd newydd y tir, roi gwybod inni pryd rydych am i'r cwota gael ei adfer trwy lenwi ffurflen MQ/43.

Mae'n rhaid inni dderbyn eich ffurflen o fewn dwy flynedd i ddechrau'r flwyddyn gwota yr atalfaelwyd y cwota ynddi.

Rheoliad y Cyngor 1234/07, Erth.72(1)

Os atalfaelwyd eich cwota gwerthiannau uniongyrchol oherwydd na wnaethoch ddanfon eich datganiad blynyddol, mae'n rhaid ichi lenwi a danfon ffurflen MQ/15 ar gyfer y flwyddyn gwota berthnasol (ac unrhyw flwyddyn ddilynol na chyflwynwyd datganiad ar ei chyfer) cyn y gellir adfer eich cwota.

DPQR, Rheoliad 39(2)(b)

Ni ellir ond adfer cwota i gynhyrchwr a gwneir yr adfer yn gymesur â'r tir sydd wedi'i ddychwelyd at gynhyrchu llaeth.

DPQR, Rheoliad 39(1)

This publication was archived on 31 March 2015

# Rhan 15

## Cadw cofnodion

Rhaid i gynhyrchwyr, prynwyr, proseswyr, cludwyr, labordai a phobl sy'n prynu, gwerthu neu gyflenwi llaeth neu gynnyrch llaeth a gafwyd yn uniongyrchol oddi wrth gynhyrchwr neu brynwr gadw cofnodion dyddiol, misol a blynyddol. Mae'r adran hon yn rhestru'r cofnodion y mae'n rhaid i gynhyrchwyr a gwerthwyr uniongyrchol eu cadw.

Rhaid i'ch cofnodion misol fod ar gyfer mis calendr.

Cyhoeddir y rheidrwydd i gadw cofnodion yn Atodlen 2 DPQR 2005, wedi'i diwygio. Bydd methu cadw'r cofnodion a restrir yn golygu y cyflwynir cosb o dan Reoliad 36 y DPQR (Lloegr, Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon).

### Pam mae'n rhaid ichi gadw cofnodion

Mae'r Asiantaeth Taliadau Gwledig yn defnyddio eich cofnodion i gadarnhau y cafodd y lefi ei gyfrif yn gywir fel sy'n ofynnol gan Reoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd.

Os na allwch ddarparu cofnodion o'r llaeth neu gynnyrch llaeth a gynhyrchwyd, a farchnadwyd neu a gyflenwyd mewn unrhyw un flwyddyn, gwnawn amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn honno yn defnyddio unrhyw wybodaeth sydd ar gael, a chyfrif unrhyw lefïau trwy ddefnyddio'r amcangyfrif hwnnw. DPQR, Rheoliad 30(4)

### Y cofnodion y mae'n rhaid ichi eu cadw

DPQR, Atodlen 2

**Cofnodion dyddiol**

Mae'n rhaid ichi gofnodi faint o laeth mae eich buches yn ei gynhyrchu bob dydd. DPQR, Atodlen 2

**Cofnodion buches**

Mae'n rhaid ichi gadw cofnodion cyfredol o'r holl wartheg ac aneiri cyflo a ddefnyddiwyd ar gyfer cynhyrchu llaeth. Rhaid i hyn gynnwys: DPQR, Atodlen 2

- eu brid,
- faint sy'n godro,
- faint sy'n hesb,
- dyddiadau unrhyw enedigaethau, a
- manylion a dyddiadau unrhyw farwolaethau.

Mae'n rhaid ichi hefyd gadw cofnodion stoc sy'n ymuno neu'n gadael eich buches. Mae hyn yn cynnwys: DPQR, Atodlen 2

- eu tarddiad neu ben eu taith
- y dyddiad y cawsant eu symud, a'u
- nodau adnabod.

Mae'n rhaid ichi hefyd gadw anfonebau am unrhyw fwyd a brynwyd ar gyfer y fuches. DPQR, Atodlen 2

This publication was archived on 31 March 2015

## Manylion eich cwota

Mae'n rhaid ichi gadw cofnodion: DPQR, Atodlen 2

- cwota sydd gennych yn barhaol
- unrhyw lesiadau cwota y buoch yn gysylltiedig â nhw, ac
- unrhyw drosglwyddiadau cwota a wnewch.

### Cofnodion eraill y mae'n rhaid ichi eu cadw

Mae'n rhaid ichi gofnodi symiau a mathau'r llaeth a chynnyrch llaeth y buoch yn eu cynhyrchu ar y daliad yr ydych wedi'u: DPQR, Atodlen 2

- trosglwyddo'n rhad ac am ddim
- dinistrio trwy drwydded gan Defra neu gorff llywodraeth arall.
- bwydo i dda byw ar y fferm,
- defnyddio yn y cartref a/neu,
- gwastraffu ar y fferm.

(Os ydych yn werthwr uniongyrchol ac os oes gennych lai na 4,855 litr o gwota gwerthiannau uniongyrchol nid yw'r 3 phwynt bwled olaf uchod yn berthnasol) Rheoliad y Comisiwn 595/04 Erth. 24(6)

Os yn briodol, efallai y gofynnir hefyd ichi gofnodi symiau a mathau'r llaeth a chynnyrch llaeth y buoch yn eu cynhyrchu ar y daliad sydd: DPQR, Atodlen 2

- mewn stoc ar y daliad, neu
- yr ydych wedi'u prynu, eu cyfnewid neu eu derbyn trwy ryw fodd arall, ynghyd â chopïau anfonebau gwerthiant.

Mae'n rhaid ichi hefyd gadw cofnodion llaeth rydych wedi'i werthu i brynwr cyfanwerthu, gan gynnwys: DPQR, Atodlen 2

- faint a gyflenwyd,
- enw a chyfeiriad y prynwr,
- slipiau talu gan y prynwr, a
- derbynebau tancer, lle y mae anghysonderau rhwng slip talu'r prynwr gwreiddiol a derbynneb y tancer.

### Os ydych yn werthwr uniongyrchol

Os ydych yn werthwr uniongyrchol, mae'n rhaid ichi hefyd gofnodi manylion: DPQR, Atodlen 2

- faint o laeth a broseswyd,
- dull y prosesu,
- symiau a mathau'r cynnyrch llaeth a gynhyrchwyd,
- faint o laeth cyflawn a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu cynnyrch llaeth (h.y. y cyfraddau trosi), a
- llaeth a chynnyrch llaeth a farchnadwyd yn uniongyrchol i'w hyfed neu fwyta.

Mae'r **holl** laeth sy'n gadael daliad yn cyfrif ar gyfer cwota, hyd yn oed os nad yw'r cynhyrchwr yn cael ad-daliad ariannol amdano. Mae hyn yn cynnwys llaeth a lygrwyd gan wrthfioteg. Nid yw llaeth wedi'i lygru a gafodd ei waredu ar y daliad yn cyfrif ar gyfer cwota. Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 6

Ni fydd llaeth a gymerwyd o'r daliad i'w ddinistrio o dan fesurau glanweithdra er mwyn diogelu iechyd pobl neu anifeiliaid yn cyfrif ar gyfer cwota ar yr amod fod y symud yn cael ei drwyddedu gan gorff awdurdodedig priodol. Rheoliad y Comisiwn 595/04, Erth. 6

This publication was archived on 31 March 2015

### Grymoedd swyddogion awdurdodedig

Bydd swyddog awdurdodedig yn gofyn am fynediad i eiddo i gadarnhau a yw gweithgarwch sy'n gaeth i ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd o ran cwotâu llaeth yn cael ei gyflawni yn unol â gofynion y Gymuned. Y diffiniad o berson perthnasol yw cynhyrchwr, prynwr, unrhyw un sy'n gweithio i brynwr neu asiant iddo, unrhyw gludwr llaeth, neu unrhyw berson sy'n profi braster menyn ar gyfer prynwr mewn labordy neu unrhyw berson sydd ynghlwm wrth brynu, gwerthu neu fasnachu llaeth neu gynnyrch llaeth yn uniongyrchol oddi wrth gynhyrchwr neu brynwr llaeth (boed wedi neu heb ei gymeradwyo). Mae ymweliadau ar gyfer cynnal archwiliadau yn cael eu gwneud fel arfer trwy apwyntiad ar adeg sy'n gyfleus i bawb.

Mae disgwyl i gynhyrchwyr roi cymorth rhesymol i'r swyddog ac, ar gyfer cofnodion a gedwir ar gyfrifiadur, i ddarparu cofnodion ar ffurf y gellir mynd â nhw o'r daliad.

Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai y gwneir ymweliadau heb rybudd ymlaen llaw. Mae gan swyddogion awdurdod hefyd i gymryd unrhyw gofnod y mae ganddynt le i gredu allai fod ei angen yn dystiolaeth.

This publication was archived on 31 March 2015

# Rhan 16

## Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni

This publication was archived on 31 March 2015

Mae'r gofrestr cwotâu yn cynnwys manylion am:

- gwota a gofrestrwyd ar y pryd gyda phob deiliad cwota, a
- phob cyn ddeiliad cwota y bu ganddynt gwota neu a dderbyniodd iawndaliadau er 1994.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cadw'r gofrestr yn gyfredol, mae'n rhaid ichi roi gwybod inni'n syth am newidiadau i'ch:

- teitl masnachu,
- cyfeiriad gohebu,
- statws eich busnes (e.e. hyd yn oed os dechreuwch fasnachu yn gwmni cyfyngedig),
- aelodau partneriaeth (hyd yn oed os na newidiodd y teitl masnachu),
- eich manylion banc (fel y gallwch gael taliadau trwy BACS), a'ch
- rhif TAW.

Os cyflwynwch ffurflen trosglwyddo neu lesio cwota yn dangos eich teitl masnachu neu gyfeiriad gohebu newydd, ond nad ydych wedi rhoi gwybod inni am y newid cyn hynny, bydd y gwaith o brosesu eich trosglwyddiad neu les yn cael ei oedi nes y cafodd y gofrestr cwotâu ei newid.

### Rhoi gwybod inni am newidiadau i fanylion busnes

Dylid cyfeirio pob cais am newidiadau i fusnes deiliad cwota at ein Canolfan Gwasanaethu Cwsmeriaid. Bydd rhaid i newidiadau i deitl masnachu a chyfeiriad gael eu gwirio ymhellach gan yr adran Cwotâu Llaeth a byddwn yn cysylltu â chi i gael mwy o wybodaeth. Os na chlywsoch gennym o fewn mis i'ch cyswllt cyntaf gyda'r Ganolfan Gwasanaethu Cwsmeriaid, ffoniwch y Llinell Gymorth Cwotâu Llaeth.

#### Newidiadau i endid cyfreithiol

Os yw'r wybodaeth a roddwch yn dangos fod gan fusnes neu endid cyfreithiol gwahanol feddiant y tir y mae'r cwota ynghlwm wrtho, efallai y bydd angen ichi wneud cais am gofrestriad ar wahân ar gyfer y busnes newydd (CReg 01 ar gael gan y Ganolfan Gwasanaethu Cwsmeriaid yn Newcastle) a chyflwyno ffurflen MQ/1 *Cais i gofrestru trosglwyddo cwota llaeth gyda thir yn barhaol* (Rhan 8 y Canllaw hwn) i drosglwyddo'r cwota.

### Adeg marwolaeth deiliad cwota

Pan mae deiliad cwota yn marw, efallai y bydd angen newid y gofrestr cwotâu. Bydd y math o newid yn dibynnu ar statws y deiliad cwota h.y. a oedd yr ymadawedig yn:

- unig berchennog, neu'n
- aelod o bartneriaeth.

### Unig berchennog yn masnachu yn ei enw ei hun

Yn y lle cyntaf, efallai y bydd angen newid y cofnod ar y Gofrestr Cwsmeriaid i ganiatáu i gynrychiolwyr personol yr ymadawedig lofnodi'r dogfennau Cwota Llaeth.

Er mwyn ein galluogi i adnabod ysgutoriaid neu weinyddwyr yr ymadawedig, gofynnir ichi ddanfon un o'r dogfennau canlynol at y Ganolfan Gwasanaethu Cwsmeriaid:

- **os gadawodd yr ymadawedig ewyllys –** Grant Profiant (gwreiddiol neu gopi ardystiedig), neu
- **os bu farw'r ymadawedig yn ddiewyllys –** Grant Llythyrau Gweinyddu (gwreiddiol neu gopi ardystiedig).

### Pan mae'r ystâd yn cael ei setlo

Bydd rhaid i'r cwota gael ei werthu neu ei drosglwyddo i fuddiolwyr neu olynwyr yr ymadawedig gydag unrhyw dir y mae ynghlwm wrtho.

Os yw'r daliad yn mynd i gael ei rannu rhwng buddiolwyr, rhaid i unrhyw ddosrannu cwota roi ystyriaeth i'r darnau o dir a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu llaeth. Byddai'r cwota wedyn yn cael ei gofrestru yn enwau meddianwyr newydd pob rhan o'r daliad.

Ni ellir gwahanu cwota oddi wrth dir mewn ewyllys. Ni allwch adael tir i un person a chwota i un arall: mae'n rhaid i'r cwota gael ei gofrestru yn enw'r person neu fusnes sy'n cymryd meddiant y daliad. Fodd bynnag, mae'n bosib trosglwyddo'r cwota heb dir os yw'r buddiolwr yn gynhyrchwr – trowch at Ran 8 – Trosglwyddo Cwota.

Rhaid i fuddiolwyr gofrestru gyda'r Asiantaeth Taliadau Gwledig (Rhan 3 y Canllaw hwn) cyn y gellir trosglwyddo'r cwota llaeth iddynt trwy ffurflen MQ/1 *Cais i gofrestru trosglwyddo cwota llaeth gyda thir yn barhaol*.

### Os oedd yr unig berchennog yn denant

Bydd y newidiadau a wneir i'r gofrestr cwotâu yn dibynnu ar feddiant y daliad i'r dyfodol:

- os yw'r daliad cyfan yn mynd yn ôl i'r landlord – bydd y cwota'n cael ei drosglwyddo i'r landlord,
- os yw'r daliad yn cael ei drosglwyddo i denant newydd trwy olyniaeth statudol - bydd y cwota'n cael ei drosglwyddo i'r tenant newydd, ac
- os mai rhan yn unig o'r daliad sy'n mynd yn ôl i'r landlord **–** rhaid dosrannu'r cwota rhwng y landlord a'r meddiannydd newydd.

Rhaid i ddosraniad y cwota gael ei gytuno gan yr holl bartïon a chanddynt fuddiant yn y daliad a dylai gymryd i ystyriaeth y darnau o dir a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu llaeth.

### Os oedd yr ymadawedig yn aelod o bartneriaeth

Bydd unrhyw newidiadau i'r gofrestr cwsmeriaid yn dibynnu ar natur y bartneriaeth a'r penderfyniadau a gymerir gan y partneriaid sy'n fyw a'r ysgutoriaid.

This publication was archived on 31 March 2015

**Os yw'r bartneriaeth yn cadw'r cwota**

Os yw amodau'r bartneriaeth yn datgan fod cyfran y partner ymadawedig yn y busnes yn pasio'n awtomatig i'r goroeswyr a bod y partner neu bartneriaid:

- yn dymuno parhau o dan yr un enw masnachu, mae angen iddynt roi gwybod i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig am y newid mewn amgylchiadau ond nid oes angen iddynt gymryd unrhyw gamau pellach.
- yn dymuno newid eu henw masnachu, dylid danfon ffurflen MQ/33 ynghyd â dogfennau i gefnogi'r newid, e.e. copi o'r dystysgrif marwolaeth a'r cytundeb partneriaeth, os yn berthnasol, atom.

**Os yw cyfran yr ymadawedig o'r bartneriaeth yn mynd i'r ystâd**

Bydd cynrychiolwyr personol yr ymadawedig yn penderfynu beth sy'n digwydd i'r cwota llaeth. Rhaid rhoi ystyriaeth i'r darnau o dir dan sylw a dosraniad y cwota.

Efallai y bydd angen inni weld gwreiddiol neu gopi ardystiedig o'r Grant Profiant neu Lythyrau Gweinyddu er mwyn adnabod y cynrychiolwyr personol.

This publication was archived on 31 March 2015

# Rhan 17

## Gofyn am wybodaeth

Bydd yr Asiantaeth Taliadau Gwledig yn darparu, yn ysgrifenedig, fanylion ar y gofrestr cwotâu sy'n gysylltiedig â daliad penodol i unrhyw un sy'n:

DPQR, Rheoliad 7

- ddeiliad y cwota neu'r cynhyrchwr, neu'n
- rhoi i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig ddatganiad ysgrifenedig yn datgan fod ganddynt fuddiant cyfreithlon yn y daliad hwnnw.

### Yr wybodaeth a ddarperir

Byddwn yn darparu'r manylion canlynol:

DPQR, Rheoliad 7

- cyfeiriad gohebu deiliad y cwota,
- faint o gwota cyfanwerthu a gwerthiannau uniongyrchol a ddelir, a
- sail braster menyn y cwota cyfanwerthu.

Dyma'r wybodaeth a gedwir ar y gofrestr cwotâu ar yr adeg y danfonir y manylion. Bydd y ffigyrau a ddarperir yn ymwneud â daliad cyfan y deiliad cwota. Ni allwn ddarparu manylion ar wahân ar gyfer ffermydd unigol.

Gallwn hefyd ddarparu rhai manylion am drafodion cwota blaenorol. Fel arfer, byddai hynny'n cynnwys dalenni crynodeb ar gyfer y cyfnodau rhwng 1984 a 1994 ac o 1994 tan y presennol. Ar gyfer rhai cynhyrchwyr, fodd bynnag, ni fydd hanes cyflawn ar gael. Rhoddwn wybod ichi os na allwn roi hanes cwota cyflawn ichi.

### Ymholiadau gan y deiliad cwota neu eu hasiant

Gallwch gael copi o'ch cofnod cofrestr eich hun trwy gysylltu â'r Asiantaeth Taliadau Gwledig.

Gallwn hefyd ddarparu rhai manylion am drafodion cwota blaenorol. Fel arfer, byddai hynny'n cynnwys dalenni crynodeb ar gyfer y cyfnodau rhwng 1984 a 1994 ac o 1994 tan y presennol. Ar gyfer rhai cynhyrchwyr, fodd bynnag, ni fydd hanes cyflawn ar gael. Rhoddwn wybod ichi os na allwn roi hanes cwota cyflawn ichi.

Bydd rhaid inni gael eich awdurdod ysgrifenedig i roi unrhyw wybodaeth i'ch asiant neu i ddanfon yr wybodaeth i unrhyw gyfeiriad ac eithrio'r un ar y gofrestr cwotâu.

Gallwch ddefnyddio ffurflen MQ/42 *Awdurdod i ryddhau gwybodaeth a gedwir ar y gofrestr cwotâu* i'n hawdurdodi ni i ryddhau gwybodaeth i drydydd parti.

Byddwn fel arfer yn postio manylion o fewn 3 diwrnod gwaith i dderbyn y cais.

This publication was archived on 31 March 2015

### Ymholiadau gan rywun a chanddynt fuddiant yn y daliad

Rhaid i unrhyw un arall sydd eisiau gweld yr wybodaeth a gedwir ar y gofrestr:

- fod â buddiant cyfreithlon yn y daliad hwnnw, megis y landlord neu forgeisiai, a
- rhoi datganiad ysgrifenedig inni yn datgan y buddiant hwnnw.

Mae'n rhaid iddynt ofyn am yr wybodaeth trwy gyflwyno ffurflen MQ/9 *Cais am wybodaeth a gedwir ar y gofrestr cwotâu* i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig. Codir tâl gweinyddol am ddarparu'r manylion cwota trwy ddefnyddio ffurflen MQ/9. Gellir cael manylion y tâl presennol trwy gysylltu â'r Llinell Gymorth (Atodiad 1 y Canllaw hwn).

Rhaid cwblhau ffurflen ar wahân ar gyfer pob cofnod yn y gofrestr.

#### Cadarnhau fod yr ymholiad yn un dilys

Byddwn yn archwilio'r ffurflen ac onid yw'r ffurflen wedi'i llenwi'n gyfrinachol, fe ddanfonwn gopi at y deiliad cwota.

Byddwn yn gofyn iddynt gadarnhau fod yr ymholiad oddi wrth rywun a chanddynt fuddiant cyfreithiol yn y daliad ac i roi gwybod inni o fewn 14 diwrnod os nad ydyw.

Byddwn yn danfon y manylion at yr ymholydd os yw'r deiliad cwota yn cadarnhau fod gan yr ymholydd fuddiant cyfreithiol yn y daliad neu os nad yw'n gwneud gwrthwynebiad dilys o fewn 14 diwrnod.

Yr unig resymau dilys dros wrthwynebu yw fod yr ymholiad oddi wrth rywun nad oes ganddynt fuddiant cyfreithiol yn y daliad.

#### Darparu gwybodaeth yn gyfrinachol

Pe bai'n well gan yr ymholydd inni **beidio** cysylltu â'r deiliad cwota, mae'n rhaid iddynt;

- roi gwybod inni'n ysgrifenedig, a
- darparu datganiad gan gyfreithiwr, cyfrifydd neu asiant tir yn datgan eu buddiant cyfreithiol yn y daliad.

This publication was archived on 31 March 2015